

# Pris Tlodi Disgyblion

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i wella lles plant o deuluoedd incwm is


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac eraill yng Nghymru i sicrhau lle blaenllaw i hawliau plant mewn polisïau a phenderfyniadau. I wneud hyn, rydyn ni'n canolbwyntio ar sicrhau bod llais gan blant a phobl ifanc yng Nghymru, rydyn ni'n brwydro dros wasanaethau teg a chynaliadwy, yn eiriol dros newid polisïau yng Nghymru ac yn cysylltu ac yn cynrychioli'r gwaith sy'n cael ei wneud gan ein haelodau.

**Cydnabyddiaeth:**

Hoffem ddiolch i'r bobl ganlynol am eu cefnogaeth a'u cyngor gwerthfawr wrth ddatblygu'r canllawiau hyn yn y lle cyntaf a'u diweddaru yn dilyn hynny :

Aelodau o Grŵp Llywio Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Swyddogion Adran Addysg Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

**Ysgrifennwyd y Canllawiau hyn gan :**

**Cheryl Martin**, Swyddog Datblygu, Plant yng Nghymru

**Sean O'Neill**, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru

**Darparwyd diweddariadau gan**

**Abi Bryant**, Swyddog Datblygu, Plant yng Nghymru

**Karen McFarlane**, Swyddog Polisi, Plant yng Nghymru

www.childreninwales.org.uk

© Plant yng Nghymru, Ebrill 2024
Rhif elusen gofrestredig: 1020313


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i wella lles plant o deuluoedd incwm is



# CYFLWYNIAD

| | |
|---|---|
| | 0 |


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Cyflwyniad

Mae'r **Canllawiau Pris Tlodi Disgyblion** wedi'u datblygu er mwyn codi ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd dysgwyr o deuluoedd incwm is, gan amlinellu'r effaith mae tlodi yn ei chael ar brofiadau plant yn yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae'r Canllawiau'n cynnig **atebion gwirioneddol a chost-effeithiol** i ysgolion, sy'n gallu helpu i oresgyn y rhwystrau y mae dysgwyr o deuluoedd incwm is yn eu hwynebu a **gwella eu llesiant, eu hymgysylltiad a'u cyfleoedd**.

Fesul thema, mae'r Canllawiau'n esbonio effaith tlodi ar **5 Maes Allweddol** o'r diwrnod ysgol.

1. **Deall tlodi;** achosion, sbardunau allweddol ac effaith tlodi ar ddysgwyr sy'n byw mewn teuluoedd incwm is
2. **Gwisg Ysgol a Dillad**
3. **Bwyd a Newyn**
4. **Cymryd rhan ym Mywyd yr Ysgol**
5. **Y Berthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol**

Mae gan bob Maes Allweddol enghreifftiau o **gamau ymarferol** y gall ysgolion eu cymryd, y mae nifer ohonynt yn fesurau cost isel neu'n fesurau heb gost a luniwyd i helpu ysgolion i fynd i'r afael ag effaith tlodi trwy **ddull gweithredu ysgol gyfan**.

Fel rhan o ddatblygu'r Canllawiau hyn, ymgynghorwyd â phartneriaid strategol gan gynnwys academyddion, llunwyr polisi, athrawon, sefydliadau trydydd sector a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

Mae'r Canllawiau, a seiliwyd ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant a gwella iechyd meddwl a llesiant emosiynol holl blant Cymru, wedi'u seilio ar ddeddfwriaeth, polisïau a chanllawiau allweddol Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â chael eu llywio gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, mae'r Canllawiau yn defnyddio gwaith ymchwil sydd wedi archwilio'r berthynas rhwng tlodi plant ac addysg yn ogystal â chanfyddiadau Arolygon Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau hyn yn fodd i ni glywed yn uniongyrchol oddi wrth y dysgwyr am sut mae tlodi'n effeithio ar eu profiad yn yr ysgol.

I gynnig cefnogaeth bellach i'r dull gweithredu ysgol gyfan, datblygwyd **canllaw penodol ar gyfer llywodraethwyr** hefyd ac mae'r canllaw hwnnw a chanllaw ategol ar **leihau bwlio cysylltiedig â thlodi,** ynghyd ag **astudiaethau achos o'r ysgolion** sy'n amlygu arfer gorau wrth ddefnyddio'r canllawiau, ar gael ar Hwb.


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i wella lles plant o deuluoedd incwm is



**DEALL ACHOSION, SBARDUNAU ALLWEDDOL AC EFFAITH TLODI AR DDISGYBLION SY'N BYW MEWN TEULUOEDD INCWM ISEL**

1


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Hawliau plant a thlodi

Mae gan bob plentyn **hawl i dderbyn addysg** a bwriedir i addysg yng Nghymru fod yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, mae costau yn gysylltiedig ag addysg o hyd, er enghraifft gwisg ysgol, ac nid yw pob teulu yn gallu fforddio rhai o'r costau ychwanegol hyn.

Cafodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ei grisialu yng nghyfraith Cymru trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**.** Seiliwyd CCUHP ar 3 egwyddor, sef: **Cyfranogi, Amddiffyn a Darparu.** Mae nifer o'r hawliau hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun plant a'u profiad yn yr ysgol :

- **Yr hawl i wireddu eu potensial** (Erthygl 6)
- **Yr hawl i dderbyn addysg ar sail cyfle cyfartal** (Erthygl 28)
- **Yr hawl i'r iechyd gorau posibl a bwyd maethlon** (Erthygl 24)
- Rhaid i **les pennaf y plentyn** fod yn flaenoriaeth uchaf bob amser (Erthygl 3)
- **Yr hawl i safon byw ddigonol** sy'n bodloni ac yn cefnogi eu hanghenion (Erthygl 27)
- **Yr hawl i ddweud eu barn a chael gwrandawiad** (Erthygl 12)
- **Yr hawl i gyfleoedd chwarae a hamdden** (Erthygl 31)
- **Yr hawl i elwa o nawdd cymdeithasol** (Erthygl 26)

Mae ysgol sy'n ystyried ac yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl blant o deuluoedd incwm is yn cael profiad teg yn eu bywyd ysgol hefyd yn ysgol sy'n helpu i sicrhau hawliau pob disgybl o dan CCUHP a CCUHPA ac mae'n cyflawni'i dyletswydd o dan ofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Dylai hawliau plant fod wrth wraidd gwaith cynllunio a chyflwyno ysgol gyfan. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cyhoeddi fframwaith ar sut i gyflawni hynny.

Er bod ffocws y Canllawiau Pris Tlodi Disgyblion hyn yn ymwneud â phlant o deuluoedd incwm is, mae mabwysiadu **dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant** mewn ysgolion yn darparu sail gwerthoedd unedig sy'n fuddiol i bob dysgwr. Mae nifer o ysgolion yn defnyddio'r Canllawiau hyn i gymryd camau ymarferol, nid yn unig i helpu plant i wireddu eu hawliau, ond hefyd i leddfu effaith tlodi ar brofiadau pob dydd plant yn yr ysgol.



**Mae'r dystiolaeth a'r enghreifftiau a ddarperir ar hyd y Canllawiau hyn yn amlygu'r effaith sylweddol y gall byw mewn tlodi ei chael ar blant wrth iddynt geisio cael mynediad i'w hawliau, o gynnydd unigol, i deimlo eu bod yn wahanol a methu bod yn rhan o dripiau ysgol a gweithgareddau cyfoethogi.**

**Bydd mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn fuddiol i bob dysgwr ac yn cyflwyno agweddau pwysig ar Bedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru:**

**Dysgwyr uchelgeisiol, galluog**
**Cyfranwyr mentrus, creadigol**
**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus**
**Unigolion iach, hyderus**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES



# Nifer yr achosion o dlodi plant yng Nghymru

Yn ei Strategaeth Tlodi Plant gyntaf a'r rhai dilynol, mae Llywodraeth Cymru yn diffinio tlodi fel a ganlyn:

***"cyflwr tymor hir o beidio â bod ag adnoddau digonol i fforddio bwyd, amodau byw neu amwynderau rhesymol neu gymryd rhan mewn gweithgareddau** (megis mynediad at gymdogaethau a mannau agored deniadol) y mae eraill mewn cymdeithas yn eu derbyn fel mater o drefn".*

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2024) | LLYW.CYMRU gyfredol ym mis Ionawr 2024.

Y dangosydd allweddol ar gyfer mesur tlodi plant yw canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd lle mae eu hincwm islaw 60% o incwm aelwyd canolrifol y Deyrnas Unedig, ar ôl tynnu costau tai. Defnyddir y dangosydd hwn yn eang gan ei fod yn cynnig darlun manwl gywir o'r incwm sydd ar gael. Mae incwm o bwys am ei fod yn adnodd allweddol sy'n galluogi aelwydydd i ddiwallu eu hanghenion hanfodol a sylfaenol o ddydd i ddydd, megis bwyd, ynni a dillad.

Dengys ystadegau a ddarparwyd gan Brifysgol Loughborough yn 2024 fod **29% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi** ar ôl tynnu costau tai**.** Er bod y ffigur hwn yn dal i fod yn annerbyniol o uchel, mae'n ostyngiad amlwg ers 2022, pan nodwyd bod 34% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Fodd bynnag, gan nad yw'r data yn cwmpasu cyfnod caletaf yr argyfwng costau byw a chwyddiant, ni wyddom eto pa mor sefydlog yw'r gostyngiad hwn ac a ydyw'n adlewyrchiad llawn o'r cyfraddau tlodi plant yng Nghymru ar hyn o bryd.

***"Mae plant yn colli rhannau allweddol o'u plentyndod oherwydd bod eu teuluoedd yn methu fforddio eitemau sylfaenol"***

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


Plant yng Nghymru
Children in Wales

# Sbardunau tlodi

**Mae sbardunau tlodi yng Nghymru yn cynnwys amrywiaeth eang o ffactorau strwythurol, cartref a ffactorau ar lefel unigol**, sy'n cynnwys - :

- Lefelau o ddiweithdra
- Effaith newidiadau diwygio lles
- Cyflogaeth ansicr a chynnig oriau anghyson
- Cyflogau isel
- Amodau economaidd gwael
- Costau byw cynyddol
- Addysg a sgiliau gwael
- Cymwysterau rhieni
- Sefydlogrwydd y teulu
- Argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant
- Fforddiadwyedd ac amodau tai
- Iechyd gwael

Mae **achosion tlodi yn gymhleth**, mae'n fwy na mater o incwm is yn unig a gwelir hyn yn fwy felly yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Mae'n broblem strwythurol gyda diffyg incwm yn elfen greiddiol. Mae nifer o deuluoedd yn profi tlodi parhaus, ond mae hefyd yn ddeinamig, er enghraifft; nid yw'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi eleni o reidrwydd yr un grŵp o bobl a fydd yn byw mewn tlodi y flwyddyn nesaf.

Fodd bynnag, amlygodd Sefydliad Joseph Rowntree fod plant sy'n byw mewn **grwpiau penodol yn fwy tebygol o brofi tlodi** a hynny ar gyfradd uwch. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys:

- Teuluoedd ethnig leiafrifol, yn enwedig grwpiau o bobl Ddu ac Asiaidd
- Teuluoedd â rhiant neu blentyn anabl
- Aelwydydd un rhiant
- Teuluoedd sydd â thri neu fwy o blant
- Y rhai sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol neu lety heb ddiogelwch

Un o'r mythau oesol yw bod tlodi yn effeithio ar gartrefi di-waith yn unig. Nid yw hynny'n wir a gwelwyd **cynnydd** cyson **yn nifer yr aelwydydd sy'n gweithio ac yn byw mewn tlodi**.

***"Mae'r cynnydd yn nifer y rhai sydd "mewn tlodi wrth weithio" yn anhygoel. Sut mae'n gallu bod yn dderbyniol eich bod yn gweithio mewn swydd dda ond yn dal i fethu fforddio bwydo eich teulu?"***

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd 2022, Plant yng Nghymru


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Tlodi ac iechyd

Canfu adroddiad a gyhoeddwyd yn 2022 gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) fod tlodi yn fater difrifol i iechyd plant. Nododd yr adroddiad fod plant sy'n byw mewn tlodi yn fwy tebygol o fod â **chanlyniadau iechyd gwaelach, iechyd corfforol gwael a phroblemau iechyd meddwl**. Roedd plant sy'n byw mewn tlodi **72% yn fwy tebygol o gael diagnosis o salwch hirdymor.**

Yn gyffredinol, mae bwydydd iach deirgwaith yn ddrutach fesul calori ac mae teuluoedd incwm is yn llawer llai tebygol o allu fforddio deiet iach, maethlon. Mae hyn yn aml yn arwain at ordewdra a chamfaethiad mewn plant.

Mae gan blant mewn teuluoedd incwm isel **lai o fynediad at y gofal iechyd** y mae arnyn nhw ei angen. Mae adroddiad RCPCH yn nodi bod cost mynychu apwyntiad clinig yn £35 ar gyfartaledd, ar ôl cymryd ffactorau ategol megis costau trafnidiaeth a gofal plant i ystyriaeth. I deuluoedd sy'n byw mewn tlodi, mae'r gost hon yn aml yn fwy na'u cyllideb wythnosol ar gyfer bwyd ac mae pwysau ariannol ychwanegol apwyntiadau iechyd yn golygu na all plant eu mynychu.

Mae'r **amgylchedd** mae plant yn byw ynddo hefyd yn gallu effeithio ar eu hiechyd. Er enghraifft, mae teuluoedd incwm is yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau **tai oer, llaith neu orlawn**, gan wneud salwch megis asthma neu heintiau ar y frest yn fwy cyffredin. Mae'r sefyllfa hon yn waeth, yn aml, yn achos teuluoedd sydd â phlentyn anabl.

Gall tlodi effeithio ar fynediad at ymarfer corff a chwarae awyr agored, hyd yn oed, gan fod **mannau agored** yn gallu bod **yn gyfyngedig** mewn ardaloedd difreintiedig ac mae costau trafnidiaeth a chyfarpar allan o gyrraedd.

## Profiadau niweidiol mewn plentyndod

Mae Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) yn **ddigwyddiadau llawn straen** sy'n digwydd yn ystod plentyndod a all gael effaith gydol oes ar iechyd ac ymddygiad. Mae tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod plant sy'n profi plentyndod o ansawdd gwael, sy'n llawn straen, yn **fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol.**

Mae'r profiadau niweidiol hyn mewn plentyndod yn cynnwys:

- Trais yn y cartref
- Rhieni'n gwahanu neu'n ysgaru
- Cam-drin geiriol, corfforol neu rywiol
- Tyfu i fyny mewn cartref lle mae rhywun yn camddefnyddio alcohol ac yn cymryd cyffuriau
- Rhiant sydd â chyflwr iechyd meddwl
- Aelod o'r teulu yn y carchar

Mae'r rhai sydd wedi profi 4 neu fwy o'r rhain yn debygol o brofi iechyd corfforol a meddyliol a chanlyniadau bywyd gwaelach.

Nid yw tlodi yn cael ei achosi gan ACE, ac nid yw profi ACE ychwaith yn arwain at dlodi. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r teuluoedd sydd ag ACE lluosog yn profi tlodi.

**Ni ddylid byth edrych ar dlodi trwy lygaid penderfyniaethol**. Bydd darparu ymatebion llawn cydymdeimlad, cymorth ystyriol o drawma, meithrin gwydnwch a mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar gryfder o gymorth i gefnogi plant a phobl ifanc.

Mae ymchwil wedi dangos bod cael perthynas gydag **un oedolyn y gellir ymddiried ynddynt** yn ystod plentyndod yn gallu lliniaru effeithiau negyddol ACE.

I gael gwybod rhagor, ewch i Hyb ACE Cymru


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Effeithiau ar ddysgu y gellir eu priodoli i dlodi

Yn arolwg Plant yng Nghymru a gynhaliwyd gyda gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr ac addysgwyr ledled Cymru yn 2023, **dywedodd 92% fod tlodi'n effeithio ar brofiadau plant o'r ysgol a dysgu.**

Canfu'r ymateb fod yr effaith ar ddysgwyr fel a ganlyn:

- **Methu canolbwyntio**: Yn llwglyd; yn flinedig; yn pryderu am bwysau ariannol yn y cartref; a phryder am iechyd meddwl eu rhieni.
- **Osgoi mynd i'r ysgol:** Methu fforddio costau trafnidiaeth, teithiau ysgol, diwrnodau codi arian a gwisg ysgol; cael eu bwlio a'u hynysu; disgwyl cael eu disgyblu am beidio â chydymffurfio â gwaith cartref neu'r rheolau.
- **Dyheadau isel:** Angen cyfrannu at y sefyllfa ariannol yn y cartref; hunan-werth a disgwyliadau isel; methu edrych ymlaen oherwydd anghenion mwy brys megis bwyd, dillad a gwres.
- **Ynysu:** Gweithgareddau; teithiau ysgol; stigma; bwlio; cywilydd; ac iechyd meddwl.

Mae llawer o blant sy'n byw mewn tlodi yn wynebu nifer o rwystrau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn gyson, hyd yn oed cyn iddynt gyrraedd gatiau'r ysgol. Er enghraifft; gall costau trafnidiaeth, gwisg ysgol ac offer fod allan o gyrraedd llawer o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi, gan arwain at bresenoldeb ysbeidiol neu afreolaidd. Canfu adroddiad yr arolwg blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd fod nifer o deuluoedd yn **gorfod dewis** rhwng talu am wisg ysgol neu drafnidiaeth, neu fwydo eu plant.

Ar ôl cyrraedd yr ysgol, mae llawer o blant sy'n byw mewn tlodi yn llwgu ac yn pryderu am arian a sut mae eu rhieni'n ymdopi neu, mewn rhai achosion, a fyddant yn dal i fod yn yr un cartref pan fyddant yn dychwelyd o'r ysgol. Mae hyn yn aml yn arwain at **ganolbwyntio ac ymgysylltu gwael.**

Mae hyd yn oed cyflwyno gwaith cartref yn gallu achosi straen i blant. Mae nifer o deuluoedd yn gorfod dewis rhwng darparu bwyd neu drydan, neu maen nhw'n eu darparu bob yn ail ddiwrnod. Er bod rhai ysgolion yn darparu dyfeisiau ar gyfer teuluoedd incwm is, gall mynediad at ddata a fforddiadwyedd data olygu na fydd gwaith cartref yn cael ei gwblhau.

Mae **sbardunau tlodi yn eang a chymhleth** ac mae'r un peth yn wir am ei effaith hefyd, gan ei fod yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd y plentyn, gan gynnwys ei ddeilliannau a'i brofiadau addysg.

***"Gall pryderon di-baid am arian effeithio ar iechyd meddwl plentyn, ar ei allu i gysgu a mynd i'r ysgol, yn arbennig oherwydd problemau trafnidiaeth neu gyfrifoldebau gofalu. Gall diffyg dealltwriaeth o'r effeithiau trosfwaol achosi i blant gael eu cosbi gan athrawon"***

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Yr effaith ar blant a phobl ifanc

**Mae tlodi yn gyffredin ar draws Cymru** gyda phob ardal awdurdod lleol yn profi tlodi plant.  Mae hynny'n golygu y bydd gan y mwyafrif o ysgolion ddysgwyr sy'n byw mewn tlodi.

Mae llawer o ymchwil wedi dangos bod tlodi'n cael **effaith niweidiol** ar addysg plant, eu cyrhaeddiad addysgol a'u profiadau yn yr ysgol.



Mae llawer o waith ymchwil sy'n dangos **effaith anferthol tlodi ar addysg plant yn yr ysgol a'u lefelau cyrhaeddiad addysgol o ganlyniad**. Mae dysgwyr o deuluoedd incwm is a theuluoedd difreintiedig yn **fwy tebygol** o brofi'r canlynol:

- **Iechyd corfforol gwaelach**
- **Problemau iechyd meddyliol neu emosiynol**
- **Llesiant a bodlonrwydd bywyd isel**
- **Tangyflawni yn yr ysgol**
- **Rhagolygon gwaelach o ran gwaith**
- **Amddifadedd cymdeithasol a theimlo'n ynysig**
- **Teimlo'n anniogel**
- **Profi stigma a bwlio yn yr ysgol**

***"Lefel is o hunan-barch.  Teimlo wedi'u gadael allan yn ddifrifol, wedi'u camddeall oherwydd yn yr ysgol, gallwch chi gael eich cosbi am fod yn flinedig, ond os oes rhaid i chi weithio neu bod eich sefyllfa bwyd a thai yn annigonol, gall cysgu fod yn anodd"*** (plentyn/person ifanc 14-16 oed)

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd, Plant yng Nghymru 2022


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Yr effaith ar blant a phobl ifanc

Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi neu o dan anfantais yn aml yn teimlo eu bod nhw'n cael **eu heithrio, eu stigmateiddio a'u bwlio** oherwydd eu bod yn methu fforddio'r un pethau â'u cyfoedion. Mae plant yn colli cyfleoedd i fod y gorau gallan nhw fod yn yr ysgol, oherwydd bod costau dod i'r ysgol bob dydd ac ymgysylltu yno yn aml yn anfforddiadwy.

Mae plant yn ymwybodol o'r costau sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol eu teulu. Gall hyd yn oed plant ifanc fod yn ymwybodol o gyfyngiadau ariannol fel costau tai a bwyd a gwybod pan fo arian yn brin. Gall plant sy'n byw yn y sefyllfaoedd hyn gael eu heithrio yn gymdeithasol oherwydd nad oes ganddynt y wisg ysgol neu'r cit chwaraeon cywir, eu bod yn methu cymryd rhan mewn pethau fel 'Diwrnodau Hwyl' neu deithiau ysgol, neu mae angen iddynt fenthyg offer ysgol sylfaenol, fel pinnau ysgrifennu, gan eu athrawon a'u cyfoedion yn gyson. I lawer, **gall yr ysgol fod yn rhywle sy'n amlygu eu hanfantais.**

Gall **polisïau ysgol effeithio ar** brofiadau dysgwyr o dlodi yn yr ysgol, ac achosi stigma anfwriadol i blant neu eu heithrio yn fwy.

**Enghreifftiau o'r polisïau hyn yw:**

- Gwisg ysgol a dillad
- Prydau ysgol
- Teithiau ysgol
- Ymddygiad
- Cynhwysiant
- Iechyd a lles emosiynol
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Bwlio a diogelu

Bob dydd yn yr ysgol, mae plant o **deuluoedd** incwm is neu deuluoedd difreintiedig **yn wynebu heriau ymarferol** y mae'n rhaid iddyn nhw eu goresgyn neu eu trafod. **Mae'r rhain yn cynnwys**:

- **Cael y dillad cywir ar gyfer yr ysgol**
- **Teithio i'r ysgol a chostau trafnidiaeth**
- **Cael yr adnoddau a'r offer cywir ar gyfer gwersi**
- **Stigma ac unigedd**
- **Fforddio teithiau ysgol**
- **Bwyd a'r gallu i dalu amdano**
- **Gweithgareddau allgyrsiol**
- **Dysgu yn y cartref**



Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Effeithiau tlodi yn yr ysgol: Barn plant

Mewn arolwg diweddar gofynnwyd i blant a phobl ifanc yng Nghymru nodi 2 faes a oedd yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar blant sy'n byw mewn tlodi :




*Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023*

Amlygodd canfyddiadau'r arolwg hwn mai'r mater pwysicaf i blant a phobl ifanc yn gyffredinol oedd bod **angen i bawb deimlo'n rhan o fywyd yr ysgol a chael eu derbyn**, nid dim ond gan eu cyfoedion ond gan yr ysgol a'r staff hefyd. Roedd unrhyw beth oedd yn tynnu sylw at eu sefyllfa ariannol neu eu hanfantais, fel methu fforddio teithiau ysgol neu wisg ysgol â'r brand cywir neu fyrbrydau yn ystod yr egwyl, yn debygol iawn o arwain at fwlio. Roedd hyn, yn ei dro, yn arwain at sylwadau ynghylch gorbryder, iechyd meddwl gwael, unigedd ac osgoi'r ysgol.

***"Cael trafferth gyda gwisg ysgol a methu mynd ar deithiau ysgol. Ar ddiwrnodau dillad cartref, mae plant yn cael eu bwlio am fod heb ddillad neis"*** (plentyn/person ifanc 10-13 oed)

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd 2023


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Fy Niwrnod Ysgol – Safbwyntiau cefnog a thlodi

Yn fwy diweddar, bu gweithgarwch cynyddol mewn perthynas â gofyn mewn modd sensitif i blant rannu eu profiadau a'u barn am dlodi plant, gan gynnwys ansicrwydd bwyd. Mae enghreifftiau da o hyn o bob cwr o'r Deyrnas Unedig a'r Alban. Mae'r gwaith hwn wedi amlygu sut mae **plant yn fwy nag abl i awgrymu dulliau ymarferol newydd a ffyrdd gwell o'u cefnogi.**

Mae mwy a mwy o enghreifftiau cadarnhaol o blant yn ymarfer eu hawl i roi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw ac i'r farn honno gael ei hystyried.

Trwy gynghorau ysgol a **threfniadau cyfranogol** eraill, bydd ysgolion a dysgwyr yn elwa o glywed syniadau a safbwyntiau plant, y bydd tlodi'n effeithio'n negyddol ar nifer ohonynt.

Mae'r profiad o dlodi i rai pobl ifanc yn cael ei ddangos yn boenus o eglur yn y tabl gyferbyn. Cynhaliodd grŵp o **bobl ifanc** o **Fforwm Ieuenctid Caerffili** weithdy i drafod profiadau tlodi mewn ysgolion gan lunio'r gymhariaeth ganlynol o ddiwrnod ysgol dysgwyr o deuluoedd incwm is a'r rheiny o gefndiroedd mwy cefnog.

| | | |
|---|---|---|
| Mynd lawr y grisiau – brecwast ar y bwrdd. | 7.00 | Dim bwyd yn y cypyrddau. |
| Gwisg ysgol wedi'i smwddio ac yn barod, tynnu dillad allan o'r cwpwrdd. | 7.30 | Codi gwisg ysgol ddoe oddi ar y llawr. |
| Rhiant yn gyrru'r plentyn i'r ysgol. | 7.45 | Colli'r bws ysgol drwy helpu gyda'i chwaer fach; cerdded i'r ysgol yn y glaw. |
| Cyrraedd yr ysgol. Cyflwyno slip caniatâd ar gyfer trip ysgol sydd i ddod. | 8.00 | Oer a gwlyb oherwydd y glaw; gwneud esgus am fod heb slip caniatâd. |
| Cyflwyno gwaith cartre. | 8.30 | Dim rhyngrwyd i chwilio gartre. |
| Gwers addysg gorfforol – dangos trênyrs newydd i'w ffrindiau. | 9.00 | Plant eraill yn chwerthin yn gas oherwydd bod rhaid benthyg trênyrs sbâr yr ysgol. |
| Amser egwyl – prynu bwyd, treulio amser gyda ffrindiau yn y cantîn yn ystod yr egwyl. | 10.00 | Osgoi'r cantîn, yn llwglyd. (ynysig) |
| Cyflwyno prosiect a wnaed gyda help rhieni; ennill y gystadleuaeth am y llosgfynydd gorau. | 11.00 | Llosgfynydd wedi'i greu o rolyn papur tŷ bach; athrawon yn beirniadu'r diffyg ymdrech ac eraill yn y dosbarth yn chwerthin. |
| Amser cinio – ffansio cacen a ffrwythau ac yn methu dewis, felly prynu'r ddau. | 12.00 | Teimlo cywilydd oherwydd y tocyn bwyd am ddim. |
| Amser mynd adre; rhieni'n dod i gasglu ar ôl gweithgaredd allgyrsiol. | 4.00 | Gorfod aros ar ôl ysgol am beidio â gwneud y gwaith cartre; gorfod cerdded adre. |


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Yr effaith ar blant a phobl ifanc

Yn aml, gall ysgolion wahaniaethu rhwng plant y mae eu rhieni'n ei chael hi'n anodd yn ariannol a phlant y mae eu rhieni/gofalwyr yn gwneud yr hyn a ystyrir yn ddewisiadau ariannol neu'n ddewisiadau bywyd gwael.  Fodd bynnag, bydd gwell ymwybyddiaeth o dlodi a'i effaith ar blant a theuluoedd yn arwain at **fwy o ddealltwriaeth a chefnogaeth** ac, yn y pen draw, at well profiad ysgol i blant sy'n byw mewn tlodi.

Gall gweithio i gefnogi plant dan anfantais arwain at staff yn teimlo'n rhwystredig oherwydd beth bynnag fo'r camau maen nhw'n eu cymryd yn yr ysgol i helpu, allan nhw ddim newid y sefyllfa yn y cartref yn sylweddol. Fodd bynnag, **mae camau gweithredu yn yr ysgol yn cael effaith** ac mae **modd i ysgolion wneud llawer i liniaru effaith tlodi** a gwella lles, ymgysylltiad a phrofiad plant mewn ysgolion.  **Bydd y Canllawiau hyn yn helpu ysgolion i wneud hynny.**

**Wrth reswm, all ysgolion ddim bod yn gyfan gwbl gyfrifol** am liniaru effaith tlodi ar brofiadau addysg plant. Am y rheswm hwnnw, rhaid annog ysgolion i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol, y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.  **Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol,** gan fanteisio cymaint â phosib ar adnoddau cyfyngedig a darparu atebion cydlynus.



*"Methu canolbwyntio oherwydd mod i'n poeni am fy rhieni, methu mynd i'r ysgol achos bod fy rhieni'n methu rhoi credyd ar y mesuryddion trydan a nwy, bod yn oer ac yn methu cael pryd cynnes neu hyd yn oed fwyd achos bod hynny'n rhy ddrud"*

(plentyn/person ifanc 10-13 oed)

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Arweinyddiaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru

Cyflwynwyd nifer o **ysgogiadau polisi, deddfwriaethol a strategol** gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â thlodi a'i effaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant ar gyfer Cymru.

Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 sydd â gweledigaeth ar gyfer Cymru *"sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i'w hawliau, i gael llesiant da a chyflawni eu potensial beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol")*

Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2021. Ystyr hyn yw bod rhaid i rai cyrff cyhoeddus ystyried sut gall eu penderfyniadau strategol wella anghydraddoldeb deilliannau ar gyfer y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n golygu bod rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried hawliau plant yn ei holl waith.

**Cenhadaeth Genedlaethol** Llywodraeth Cymru yw cyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb trwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a chefnogi pob dysgwr. Yn ei dogfen map trywydd mae Llywodraeth Cymru yn tynnu ynghyd bolisïau ac uchelgeisiau ar gyfer addysg er mwyn cyrraedd y nod yma. Mae hyn yn cynnwys chwalu rhwystrau i gyfleoedd addysg, creu profiad addysgol cadarnhaol a chefnogi dysgwyr. Mae ffocws penodol ar ddysgwyr sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae addysg yn elfen ganolog o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014 ac mae'r 7 Nod Llesiant yn y Ddeddf yn cadarnhau hynny ac yn ei gyflwyno trwy'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Grant Datblygu Disgyblion

Adnodd allweddol yw'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cyllid hwn i ysgolion a lleoliadau a'i nod yw gwella cyrhaeddiad dysgwyr o deuluoedd incwm is, ynghyd â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Neilltuir y cyllid ar sail nifer y dysgwyr 5 i 15 oed sy'n:

- Gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (eFSM)
- Plant sy'n derbyn gofal

Yn ogystal, mae PDG Blynyddoedd Cynnar sy'n cynnig cymorth tebyg ar gyfer plant 3 a 4 oed mewn ysgolion a meithrinfeydd. Cyllid ar gyfer 'dulliau gweithredu ysgol gyfan' yw hyn ac er bod modd i'r rhain gynnig mantais i bob dysgwr, rhaid i ysgolion gefnogi anghenion dysgwyr sydd dan anfantais. Yn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar sut y dylai ysgolion ddefnyddio'r grant hwn, ac mae'r cyfraddau cyllido yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn flynyddol. Mae'r **canllawiau'n blaenoriaethu gwariant PDG mewn 2 faes** :

- Dysgu ac addysgu o ansawdd uchel
- Datblygu Ysgolion Bro

# Grant Hanfodion Ysgol

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid trwy'r Grant Hanfodion Ysgol i rieni a gofalwyr disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phob plentyn sy'n derbyn gofal. **Diben y grant yw darparu cymorth ariannol** i brynu eitemau megis:

- Gwisg ysgol, gan gynnwys cotiau ac esgidiau
- Gweithgareddau ysgol, gan gynnwys cit chwaraeon, offerynnau cerdd ac offer ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol
- Hanfodion ar gyfer yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys pinnau ysgrifennu a bagiau ysgol

Gall teuluoedd cymwys wneud un cais yn unig ar gyfer plentyn unigol, unwaith mewn blwyddyn ysgol. Mae'r grant ar gael i blant o'r dosbarth Derbyn i flwyddyn 11. I wneud cais, rhaid i rieni a gofalwyr hawlio'r arian yn uniongyrchol oddi wrth yr awdurdod lleol yn ardal ysgol eu plentyn. Fodd bynnag nid yw pob teulu yn ymwybodol o'r grant na'r ffaith eu bod yn gymwys i'w dderbyn, felly mae'n bwysig hyrwyddo'r grant a helpu rhieni/gofalwyr i wneud cais amdano lle bynnag y bo modd. Mae deunyddiau hyrwyddo ar gael i gefnogi hyn yn: Hawliwch help gyda chostau ysgol: pecyn cymorth hyrwyddo i ysgolion ac awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

# Grant urddas mislif

Mae merched mewn teuluoedd incwm is neu deuluoedd sydd o dan anfantais mewn perygl o golli dyddiau o addysg a dioddef stigma a chywilydd yn ystod eu mislif. Nod *Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif gan* Lywodraeth Cymru yw sicrhau urddas mislif yng Nghymru. Fel rhan o'r cynllun gweithredu hwn, mae awdurdodau lleol yn cael arian i **ddarparu cynnyrch mislif am ddim i ysgolion** ledled Cymru. Dylai'r cynnyrch hwn fod ar gael yn hwylus i bob merch, nid dim ond y rhai o deuluoedd incwm is a theuluoedd difreintiedig, mewn modd sy'n **amddiffyn eu hurddas**.


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

## Defnyddio dull ysgol gyfan o fynd i'r afael ag effaith tlodi

Mae ysgolion yn wynebu nifer o heriau, ond er gwaethaf hynny, mae llawer ohonynt yn cymryd camau i liniaru effaith tlodi ar addysg a lles plant o deuluoedd incwm is a theuluoedd difreintiedig.

Mae'r rhaglenni a'r camau gweithredu hyn yn dangos **gwelliannau o ran cynnydd, ymddygiad, presenoldeb a lles dysgwyr ac o ran y niferoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim.**

Yn ei adroddiad blynyddol 2021-2022, dywed Estyn fod gan ddarparwyr sy'n mynd i'r afael yn effeithiol ag effaith tlodi, ffocws cryf ar **safonau uchel, tegwch** a lliniaru **effaith berthnasol tlodi.**

Er mwyn lleihau effaith tlodi ar y diwrnod ysgol, mae angen defnyddio **dull gweithredu ysgol gyfan**, gyda phob rhan o'r ysgol yn cydweithio, yn cymryd rhan lawn ac yn ymrwymo i wneud newidiadau cadarnhaol. Mae'n gofyn bod y llywodraethwyr, yr uwch-arweinwyr, yr athrawon a holl staff yr ysgol, yn ogystal â'r rhieni a'r gymuned ehangach, yn gweithio mewn partneriaeth.

**Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, gan ddarparu atebion gwirioneddol a chost effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi.  Maen nhw hefyd yn dangos y camau gweithredu trosfwaol sy'n cefnogi ac yn gwella'r meysydd allweddol hyn, gan ddarparu sylfaen a fydd yn galluogi ysgolion i roi sylw cadarnhaol i effaith tlodi ar eu dysgwyr.**




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

## Camau gweithredu trosfwaol

- Dylai holl staff yr ysgol ddilyn **hyfforddiant ymwybyddiaeth o dlodi**, i'w helpu i ddeall yr effaith a nodi pa blant sy'n dangos arwyddion bod eu sefyllfa yn effeithio arnyn nhw.

- Penodi **Hyrwyddwr Tegwch** o blith staff yr ysgol i hyrwyddo a sicrhau tegwch a chydraddoldeb i bawb. Gall yr hyrwyddwr:
  - **Nodi** pa ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm is neu deuluoedd difreintiedig
  - **Monitro** ac olrhain pa ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a phwy ddylai fod yn derbyn rhai
  - **Ymgysylltu** â rhieni/gofalwyr mewn ffordd gadarnhaol a sensitif, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw fudd-daliadau neu grantiau y gallen nhw eu hawlio a'u bod yn gallu gwneud cais amdanynt
  - **Annog** rhieni i ddweud eu dweud ynghylch addysg eu plentyn trwy ymuno â'r Cyngor Rhieni neu'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon
  - Cadw **rhestr o sefydliadau** a chysylltiadau lle gall rhieni gael cyngor neu gymorth ychwanegol ar gyfer materion penodol, megis cyngor ar ddyled neu fynediad at fanciau bwyd
  - Datblygu **cynllun gweithredu** sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad yn yr ysgol ac yn ceisio lleihau'r holl gostau i deuluoedd

- Penodi **Llysgennad Tegwch** o blith y dysgwyr yn yr ysgol, a gefnogir gan staff yr ysgol i ddatblygu rôl sydd o fantais i bob dysgwr ac yn hysbysu'r staff am y rhwystrau y dylid rhoi sylw iddynt. Yn ddelfrydol, dylai'r Llysgennad fod yn ddysgwr sydd â phrofiad o fyw mewn teulu incwm is

- Hyrwyddo **dull ysgol gyfan** lle caiff dysgwyr eu hannog i siarad â'u hathrawon neu ag aelod penodol o'r staff os ydyn nhw'n pryderu am ddysgwr arall.

- Nodi pa **bolisïau ac arferion** sy'n achosi stigma neu'n cael effaith anfwriadol ar blant difreintiedig a nodi ble gellir gwneud newidiadau

- Cynnwys **plant a phobl ifanc a gwrando arnynt** i ddarganfod pa heriau y gallai dysgwr o deulu incwm is fod yn eu hwynebu

- Cynyddu ymgysylltiad ac ymrwymiad gan **ystod o randdeiliaid** ar lefel ranbarthol, awdurdod lleol a lefel gymunedol

- Defnyddio **adnoddau** i'ch helpu. Gallai hyn gynnwys:
  - Y **canllawiau Pris Tlodi Disgyblion** hyn
  - **'Cofia Ceri',** adnodd gan Gomisiynydd Plant Cymru i helpu dysgwyr a staff i feddwl am gostau'r ysgol, deall tlodi a chynllunio gwelliannau
  - **Cymheiriaid**: Mae nifer o ysgolion bellach yn cymryd camau i leihau effaith tlodi ar ddysgwyr. Trafodwch gyda nhw, rhannwch brofiadau ac adnoddau ac, yn bwysig, dysgwch ganddyn nhw.

- **Rhoi newidiadau cost isel neu newidiadau dim cost ar waith** sy'n gwneud gwahaniaeth

- Ymrwymo i ddefnyddio **dull ysgol gyfan** o ymdrin ag agweddau, dealltwriaeth a gweithredoedd sy'n cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi ac sydd o dan anfantais.


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i wella lles plant o deuluoedd incwm is



## GWISG YSGOL A DILLAD - ‘NID YW’N YMWNEUD Â DYSGU’N UNIG’.

2


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a’r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru

Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU

CHILDREN IN WALES

# Cyflwyniad

## Fforddiadwyedd

Er bod gwisg ysgol yn cynnig llawer o fanteision cadarnhaol, gan gynnwys helpu i leihau gwahaniaethau gweladwy a meithrin ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn ymysg dysgwyr, i lawer, mae'n dal i gyflwyno **cost sylweddol sy'n aml yn anfforddiadwy** i deuluoedd.

Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn teuluoedd incwm is yn wynebu rhwystrau sylweddol i ddysgu pan nad yw eu teuluoedd yn gallu fforddio costau gwisg ysgol. Mae dysgwyr yn aml yn teimlo **cywilydd neu'n pryderu** am fod yn destun gwawd, bwlio a thrueni i'w cyfoedion a staff yr ysgol. Mae'r pryderon hyn yn cynyddu'r straen a'r pryder a wynebir gan ddysgwyr a'u teuluoedd, gan arwain at **fwy o absenoldeb** gan y byddai'n well gan ddysgwyr beidio â mynd i'r ysgol na chael eu hanfon adref neu dderbyn llythyr gan yr ysgol a'r cywilydd sy'n gysylltiedig â hynny. Mae hyn yn **broblem barhaus ar hyd y flwyddyn ysgol** wrth i eitemau dreulio neu fynd yn rhy fach a bod angen rhai newydd yn eu lle.

Mae teuluoedd incwm is yn llai tebygol o allu fforddio prynu mwy nag un wisg ysgol ac mae hyn hefyd yn broblem i ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion sydd â pholisi llym o ran gorfodi rheolau. Efallai y bydd plentyn yn cyrraedd yr ysgol heb y wisg gywir am mai dim ond un crys sydd ganddyn nhw ac os yw hwnnw'n cael ei olchi neu wedi'i ddifrodi, does dim un sbâr ar gael. Hyd yn oed os cânt eu hanfon adref, does ganddyn nhw ddim byd arall i'w wisgo. Gall y rhain fod yn **ganlyniadau anfwriadol polisi gwisg ysgol llym.**

***"Os nad oes gennych chi'r wisg gywir, rydych chi'n cael slip gwisg ysgol i fynd adre, ac os na fyddwch chi'n cywiro'r wisg, fe gewch chi bwynt ymddygiad negyddol sy'n gallu cynyddu'n gyfnod o aros ar ôl ysgol"*** (plentyn/person ifanc 14-16 oed)

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Fforddiadwyedd

Yn adroddiad Arolwg Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023, dywedodd 50% o'r plant a'r bobl ifanc fod bod heb ddigon o arian i brynu gwisg ysgol yn cael effaith sylweddol ar blant sy'n byw mewn tlodi. Roedden nhw'n **fwy tebygol o gael eu bwlio a'u hynysu** o ganlyniad i hynny ac yn fwy tebygol o gael eu hanfon adref.

Roedden nhw'n teimlo bod hyn yn gwbl annheg ac yn sylweddoli **nad oes rhaid i eitemau gwisg ysgol fod mor ddrud** ag y maen nhw.

***Mae'n hurt bod rhieni'n gorfod gwario cymaint ar wisg ysgol. Mae'n eu hecsbloetio ac yn eu rheoli. Pam gwneud iddyn nhw dalu cymaint am siwmper lwyd?"*** (14-16 oed)

Canfu'r arolwg fod 79% o blant a phobl ifanc yn gorfod gwisgo bathodyn neu logo'r ysgol ar o leiaf un eitem o'u gwisg ysgol. Ond yn achos nifer ohonynt, roedd y rheol hon yn cwmpasu 3, 4 neu hyd yn oed 5 eitem gwisg ysgol. Yn achos y plant hyn, roedd rhaid prynu'r eitemau wedi'u brandio mewn siop gwisg ysgol benodol am bris llawer uwch nag eitemau heb eu brandio.

Mae'r tabl gyferbyn yn dangos enghreifftiau o gostau gwisg ysgol ac yn cynnig cipolwg ar bolisïau dwy ysgol yng Nghymru. Costau ar gyfer blwyddyn ysgol 2023/24 oedd y rhain. Pan nad oedd angen eitemau wedi'u brandio, defnyddiwyd cost eitemau o archfarchnad.

| Blwyddyn ysgol 23/24 | Costau Ysgol A | Costau Ysgol B | Costau archfarchnad heb logos |
|---|---|---|---|
| % o ddysgwyr eFSM * | 19% | 38% | |
| | | | |
| Siaced ffurfiol | £30.00** | £30.00 ** | £14.00 |
| Sgert/trowsus x 2 | £ 8.00 | £ 8.00 | £ 8.00 |
| Crys x 5 | £ 7.50 | £ 7.50 | £ 7.50 |
| Tei | £ 7.00 ** | £ 6.00 ** | £ 4.00 |
| Siwmper x 2 | £34.00 ** | £32.00 ** | £ 5.00 |
| Sanau/teits x 5 | £ 5.00 | £ 5.00 | £ 5.00 |
| Esgidiau | £14.00 | £14.00 | £14.00 |
| Top Add Gorff x 2 | £44.00 ** | £37.00 ** | £ 3.00 |
| Siorts Add Gorff x 2 | £24.00 ** | £ 5.00 | £ 5.00 |
| Trênyrs | £10.00 | £10.00 | £10.00 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **£183.50** | **£154.50** | **£75.50** |
| | | | |
| *** Cymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim** | | | |
| **** Rhaid cael y logo, ac ar gael o siop benodol yn unig** | | | |


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

## Camau gweithredu: gwisg ysgol a dillad

- **Rhoi *Canllawiau polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion* Llywodraeth Cymru ar waith.** Mae'r canllawiau statudol hyn yn cydnabod bod gwisg ysgol yn faich ariannol, yn arbennig ar deuluoedd incwm is. Er mwyn rhoi sylw i hyn a lliniaru'i effaith, **mae'r canllawiau'n dweud:**
  - Dylai ysgolion roi blaenoriaeth uchel i **gost a fforddiadwyedd**
  - Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddrud fel bod disgyblion yn teimlo na allant fynd i'r ysgol
  - **Ni ddylai** eitemau wedi'u brandio **fod yn orfodol**
  - Dylai fod trefniadau ar waith i ddarparu **gwisg ysgol ail law/wedi'i brandio**
  - Dylid osgoi eitemau cost uchel megis siacedi ffurfiol
  - Wrth newid polisïau gwisg ysgol, dylid cyflwyno **cyfnod pontio**
  - Dylid osgoi defnyddio un cyflenwr gwisg ysgol yn unig

- Dywed y canllawiau statudol na ddylai eitemau wedi'u brandio fod yn orfodol. Er bod cynnig y dewis anorfodol hwn yn helpu gyda'r costau, nododd plant a phobl ifanc y gall dynnu sylw pellach at eu hamgylchiadau ariannol gan fod eitemau heb y logo dewisol yn gwneud iddynt *"sefyll allan"*. Byddai **dileu eitemau wedi'u brandio yn gyfan gwbl** yn gam gweithredu mwy cadarnhaol ac effeithiol.

- **Grant Hanfodion Ysgol:** Gall teuluoedd incwm is sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol wneud cais am y grant hwn. Caiff teuluoedd wneud un cais yn unig ar gyfer plentyn unigol, unwaith mewn blwyddyn ysgol trwy gyflwyno cais i'r awdurdod lleol. **Cynyddu ymwybyddiaeth** teuluoedd **o'r Grant Hanfodion Ysgol** er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gymwys i'w dderbyn yn ymwybodol ohono ac, yn bwysig, yn gwybod sut i wneud cais amdano.

**Mae sawl ffordd o gynyddu ymwybyddiaeth**, er enghraifft; trwy hysbysfyrddau yn yr ysgol, cyfathrebu â rhieni/gofalwyr, fforymau, newyddlenni a thudalennau gwe, swyddogion cyswllt â theuluoedd a staff eraill sy'n cysylltu â rhieni. Dylid nodi nad yw nifer o deuluoedd yn bodloni meini prawf cymhwysedd y grant hwn, ond maen nhw'n dal i gael trafferth i fforddio gwisg ysgol. Felly, mae'n hanfodol bwysig ystyried a chyflwyno camau eraill i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd gyda chostau gwisg ysgol.

***"Petai dim bathodynnau ar wisg ysgol, a'i bod yn blaen, byddai'n rhatach ac yn haws i bobl gael gafael arni. Gallai'r ysgol hyd yn oed werthu bathodynnau i'w smwddio ar y wisg, oherwydd mae gorfod prynu o siop gwisg ysgol yn ddrud iawn"*** (plentyn/person ifanc 10-13 oed)

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

## Camau gweithredu: gwisg ysgol a dillad

- **Beth yw cost eich gwisg ysgol? Ewch ati i'w phrisio** i nodi faint mae'n rhaid i'ch teuluoedd ei wario er mwyn glynu wrth eich polisi gwisg ysgol. Dylai'r dasg hon gynnwys y wisg ysgol gyfan, citiau Addysg Gorfforol, esgidiau ac unrhyw eitemau eraill a argymhellir yn eich polisi neu'ch canllawiau. O ystyried bod tua traean ar gyfartaledd o blant a phobl ifanc Cymru yn byw mewn tlodi a llawer mwy yn profi incwm is, **ydy hyn yn fforddiadwy** i deuluoedd dysgwyr yn eich ysgol?
- **Cynhaliwch archwiliad effaith:** Nodwch **effaith eich polisi gwisg ysgol cyfredol** ar bob plentyn, yn arbennig y rhai o gefndiroedd difreintiedig ac incwm is. Gofynnwch beth yw barn plant, pobl ifanc a rhieni ar gostau eich gwisg ysgol, ble maen nhw'n prynu eitemau, pa mor hawdd yw eu prynu ac effaith ariannol prynu'r eitemau hyn. Mae rhai ysgolion wedi gwneud hynny ac wedi cyflwyno nifer o newidiadau, gan gynnwys gweithio gydag undebau credyd i alluogi rhieni i dalu fesul tipyn am wisg ysgol.
- **Ydy'ch gwisg ysgol chi yn cynnwys eitemau wedi'u brandio? Ystyriwch a oes gwir angen brandio** pob un o'r eitemau hyn, neu unrhyw eitem o gwbl, ac ystyriwch effaith ariannol y brandio hyn. A fyddai modd i'ch ysgol ddefnyddio lliw penodol yn hytrach nag eitemau wedi'u brandio? Os byddai, a fydd y dewis lliw yn fforddiadwy ac ar gael yn hwylus o siop anarbenigol? Yn dibynnu ar faint eich ysgol, efallai y byddai rhai archfarchnadoedd yn fodlon eu stocio'n lleol.
- **Cynlluniau ailgylchu gwisg ysgol.** Bydd gweithredu cynllun ailgylchu yn eich ysgol nid yn unig yn helpu i leihau cost gwisg ysgol i deuluoedd incwm is, ond gwelir hefyd fod ailddefnyddio ac ailgylchu yn cael effaith gadarnhaol ar ein hamgylchedd. Gall dysgwyr gyfrannu dillad sy'n rhy fach iddynt neu rai nad oes arnynt eu hangen bellach. Gallai hyn gynnwys cit ac offer chwaraeon. Er mwyn **sicrhau bod cynlluniau ailgylchu yn cael effaith gadarnhaol ac yn cael eu defnyddio** a'u derbyn gan ddysgwyr a'u teuluoedd, dylid cymryd y canlynol i ystyriaeth:
  - Dylai'r eitemau fod yn **lân ac mewn cyflwr da.** Dylid tynnu sylw rhoddwyr at hyn a dylai'r mannau casglu fod yn hawdd eu cyrraedd.
  - Dylai'r eitemau fod **am ddim** neu ar gael am **dâl bach**
  - Dylid hwyluso cynlluniau mewn modd **sensitif nad yw'n achosi stigma**. Ystyriwch sut i wneud hynny a **chynnwys y dysgwyr a'u teuluoedd,** gan ofyn sut, ble a phryd yr hoffen nhw gael mynediad i'r cynllun.
  - Cofiwch gynnwys pwysigrwydd ailgylchu ac ailddefnyddio gwisg ysgol yn rhan o'ch gwersi a'ch sgyrsiau ynghylch yr **amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd**. Bydd hyn yn lleihau unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â gwisgo eitemau gwisg ysgol ail law ac fe fydd, yn lle hynny, yn dod yn gam rhagweithiol a chadarnhaol i helpu'r amgylchedd.

Mae Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wedi cynhyrchu adnodd *Gwyrdd-droi* a all helpu ysgolion i archwilio a threfnu cynllun ailgylchu.


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

## Camau gweithredu: gwisg ysgol a dillad

- Meddyliwch am **wahanol ddulliau o ddelio ag achosion o beidio â chydymffurfio â'r polisi gwisg ysgol.** Os nad yw disgyblion yn cydymffurfio â'r polisi, dylid mynd ati yn gyntaf i **ofyn pam a gwirio a yw popeth yn iawn**, yn hytrach na defnyddio dull cosbol neu anfon disgyblion adref i newid. Efallai na fydd dysgwyr sy'n byw mewn teuluoedd incwm is yn gallu fforddio'r wisg gywir neu efallai na all y teulu fforddio golchi'r eitem honno ar yr adeg honno, ac nad oes eitem arall ganddyn nhw. Yn Adroddiad Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru (2023), teimlai plant a phobl ifanc fod cosbi achosion o dorri rheolau gwisg ysgol am resymau sy'n gysylltiedig ag incwm yn annheg. **Dylai ysgolion chwilio am ddull gweithredu mwy hyblyg nad yw'n defnyddio cosbau yn eu polisi gwisg ysgol.**

- **Hyrwyddwr tegwch:** Gall staff ysgol sydd â phryderon nad yw gwisg ysgol disgybl yn ei ffitio neu nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau, neu fod ôl traul arni, gysylltu â hyrwyddwr tegwch yr ysgol. Yna, gallai'r unigolyn hwn weithio mewn modd sensitif gyda'r rhieni i sicrhau eu bod yn **ymwybodol o unrhyw gymorth, megis grantiau a mannau ailgylchu, sydd ar gael.**

- **Osgoi gwobrau sy'n gysylltiedig â gwisgo'r wisg ysgol yn gyson.** Gallai'r gwobrau hyn achosi stigma i blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm is ac yn aml, gallant fod allan o gyrraedd i lawer. Yn rhy aml, bydd cydymffurfio'n gyson â'r polisi gwisg ysgol y tu hwnt i'w rheolaeth oherwydd eu hamgylchiadau ariannol, felly **dylai ysgolion osgoi'r system wobrwyo hon**.

- Ni ddylai polisïau gwisg ysgol **bennu eitemau gwahanol o ddillad** ar sail rhyw/rhywedd. Argymhellir y cam gweithredu hwn yn y canllawiau statudol ar bolisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion gan ei fod nid yn unig yn helpu i gefnogi cydraddoldeb, ond hefyd yn **cynnig dewis ehangach i deuluoedd incwm is**, naill ai wrth brynu gwisg ysgol newydd neu ddefnyddio cynlluniau ailgylchu.

- Mae Plant yng Nghymru yn rhoi sylw i **Astudiaethau Achos** o ysgolion sy'n rhoi Canllawiau polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion Llywodraeth Cymru ar waith. Mae modd eu gweld yma: Cefnogi Newid: Gwisg Ysgol

***"Mae ein hysgol ni yn gweithio'n galed i sicrhau bod plant mewn tlodi ddim yn sefyll allan yn amlwg. Mae gwisg ysgol ar gael am ddim i blant sydd angen hynny, ac mae wedi cael ei chyfrannu gan blant eraill"*** (plentyn/person ifanc 10-13 oed)

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i wella lles plant o deuluoedd incwm is


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5




# BWYD A NEWYN

3


Ariennir gan Lywodraeth Cymru

Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU

CHILDREN IN WALES

# Cyflwyniad

Mae gan bob plentyn hawl i gael bwyd maethlon digonol a dŵr glân (Erthygl 24, CCUHP). Mae astudiaethau a gynhaliwyd gan arbenigwyr bwyd, undebau addysg, Comisiynydd Plant Cymru a Plant yng Nghymru wedi datgelu tueddiad brawychus a phryderus bod plant yn llwgu yn yr ysgol, a rhai hyd yn oed yn troi at ddwyn bwyd, yn benthyca arian gan ffrindiau neu'n mynd heb fwyd.

Yn niffyg cymorth ychwanegol i helpu i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd, mae llawer o blant yn annhebygol o ddatblygu'n dda trwy'r ysgol a chyflawni cymwysterau neu ganlyniadau bywyd da. Nod y canllaw hwn yw helpu ysgolion i nodi'r plant hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt oherwydd ansicrwydd bwyd a newyn ac ystyried ffyrdd o ddarparu hynny.

***"Mae nifer y disgyblion rydyn ni'n eu gweld yn dod trwy'r ysgol sydd â phroblem o ran cael bwyd a darpariaeth bwyd ar eu cyfer yn destun pryder cynyddol. Mae llawer o ddisgyblion bellach heb fynediad at ddigon o fwyd gartref"***

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023




| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Ansicrwydd Bwyd

## Beth yw ansicrwydd bwyd?

Ystyr ansicrwydd bwyd yw **methu fforddio neu gael mynediad cyson at ddigon o fwyd iach, maethlon** i fodloni eich anghenion sylfaenol. Nid yw'r rhai sy'n profi ansicrwydd bwyd yn gwybod o ble y daw eu pryd nesaf ac mae'n rhaid iddynt gyfyngu ar swm neu safon eu bwyd neu fynd heb bryd yn gyfan gwbl.

Achos pennaf ansicrwydd bwyd yw incwm isel neu annigonol.

## Graddfa'r broblem

I filoedd o deuluoedd a phlant yng Nghymru, mae ansicrwydd bwyd yn realiti o ddydd i ddydd. Yn eu hadroddiad *Newyn yng Nghymru* yn 2023, nododd Ymddiriedolaeth Trussell, fod **69,683 o barseli bwyd mewn argyfwng wedi'u darparu ar gyfer plant** rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ar ffigur 2021/2022 a ddangosodd fod 48,658 o barseli bwyd mewn argyfwng wedi cael eu darparu, ac mae'n cynrychioli cynnydd o 41%.

Rhan fach yn unig o'r darlun cyffredinol yw hyn, sy'n dangos nifer y parseli bwyd a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Trussell a'u partneriaid yn unig. Mae llawer o ddarparwyr eraill, megis pantrïoedd a hybiau bwyd cymunedol, sydd heb eu cynnwys yn y ffigurau hyn.

Mae adroddiad *Newyn yng Nghymru* 2023 hefyd yn dangos nad oedd y mwyafrif o'r rhai oedd yn profi ansicrwydd bwyd (74%), wedi chwilio am gymorth bwyd na derbyn y cymorth hwnnw.




Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**

Funded by **Welsh Government**

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Yr effaith ar blant a phobl ifanc

Mae'n ffaith gydnabyddedig bod **ansicrwydd bwyd a newyn yn effeithio ar brofiadau addysgol**, presenoldeb, ymgysylltiad, ymddygiad, a lles emosiynol a chorfforol plant. Gwelwyd bod newyn yn effeithio ar ymddygiad plant a'u gallu i ddysgu. Mae plant sy'n llwgu yn cael trafferth canolbwyntio ac mae hynny'n amharu ar eu dysgu. **Mae ansicrwydd bwyd a newyn yn gysylltiedig â gorfywiogrwydd a diffyg sylw, anhwylderau hwyliau a gorbryder, yn ogystal ag ymddygiad ymosodol**.

Mae plant o gartrefi sy'n wynebu ansicrwydd bwyd yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew oherwydd diffyg bwyd maethlon, cytbwys a fforddiadwy. Wrth dyfu i fyny gydag ansicrwydd bwyd gall plant ddysgu bwyta pan fydd bwyd ar gael, yn hytrach na phan fydd eisiau bwyd arnyn nhw. Wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion, gall hyn effeithio ar allu'r corff i reoli a deall signalau newyn, gan wneud rheoli neu golli pwysau yn anodd.

Dangosodd dadansoddiad o astudiaeth ddiweddar yn ninas Leeds, a gafodd ei rannu mewn digwyddiad yn senedd y Deyrnas Unedig, fod plant sy'n profi ansicrwydd bwyd yn dweud eu bod yn teimlo'n bryderus neu o dan straen bob dydd neu bron bob dydd. Canfu'r astudiaeth hon hefyd fod plant o gartrefi lle ceir ansicrwydd bwyd 3-4 gwaith yn fwy tebygol o brofi emosiynau negyddol o gymharu â'u cyfoedion sy'n mwynhau sicrwydd bwyd.

**Mae ansicrwydd bwyd yn achosi straen a phryder i bob aelod o'r teulu**. Mae plant yn aml yn ymwybodol iawn bod eu rhieni a'u gofalwyr yn bwyta llai neu'n mynd heb fwyd, er mwyn gwneud i'r bwyd fynd ymhellach. Dros nifer o flynyddoedd, mae Arolygon Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru wedi canfod dro ar ôl tro fod plant yn teimlo'n euog pan na fydd eu rhieni'n bwyta, a'u bod yn osgoi dangos i'w rhieni eu bod yn llwglyd ac mewn rhai achosion, maent yn cymryd bwyd o leoliadau er mwyn darparu ar gyfer eu rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd.



***"Mae Mam yn crio drwy'r amser achos bod dim arian ganddi. Rydw i'n teimlo'n wael ofnadwy a ddim yn gwybod beth i wneud. Alla i ddim dweud wrthi mod i'n llwglyd achos bydd hi'n crio mwy"*** (Plentyn/person ifanc 10-13 oed)

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Prydau Ysgol am Ddim (FSM)

Mae gofyn i awdurdodau lleol ddarparu cinio ysgol am ddim i **ddisgyblion cymwys**, a chyfeirir at hyn yn gyffredin fel prydau ysgol am ddim. Mae llawer o awdurdodau lleol yn dewis cyflawni'r rhwymedigaeth hon trwy ddarparu lwfans dyddiol y gall disgyblion ei wario yn y ffreutur gan ddefnyddio system ddi-arian, tocyn neu gerdyn. Mae estyn Prydau Ysgol Am Ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd yn golygu y bydd pob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru yn cael prydau ysgol am ddim erbyn Medi 2024.

O dan feini prawf cymhwysedd FSM sy'n destun prawf modd, **mae 90,108 o ddisgyblion yng Nghymru yn gymwys ar gyfer FSM** (**eFSM**) yn 2024 yn ôl data'r Cyfrifiad Ysgolion. Fodd bynnag, nid yw pob rhiant a gofalwr cymwys yn ei hawlio, am resymau sy'n cynnwys: ddim yn gwybod eu bod yn gymwys, ddim yn gwybod sut mae cyflwyno cais, pryder am y stigma sy'n gallu bod yn gysylltiedig ag eFSM, neu oherwydd bod estyn Prydau Ysgol am Ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd yn gwneud i rieni feddwl bod dim angen iddyn nhw gofrestru ar gyfer eFSM.

O dan Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, mae dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion i annog teuluoedd i hawlio prydau ysgol am ddim. O dan yr un Mesur, **mae dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion hefyd i ddiogelu manylion adnabod dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim**. Er bod defnyddio systemau di-arian i dalu am brydau ysgol uwchradd wedi cael effaith gadarnhaol o ran lleihau'r sylw, y stigma a'r cywilydd a gysylltir yn aml ag eFSM, dylai ysgolion ystyried sut mae hyn yn gweithio yn ymarferol yn ystod yr awr ginio.

Er enghraifft, oes modd i ddysgwyr eFSM symud trwy'r broses amser cinio yn yr un ffordd â dysgwyr eraill, heb gael eu hadnabod yn hawdd?

Mae dysgwyr sy'n derbyn prydau am ddim yn cael hyn a hyn o arian i brynu eu cinio ac mewn rhai ysgolion mae modd defnyddio'r lwfans hwn i brynu byrbryd yn ystod yr egwyl. Gall yr hyblygrwydd hwn gael effaith gadarnhaol ar blant trwy eu gwneud yn llai llwglyd cyn cinio a'u galluogi i ganolbwyntio'n well yn y dosbarth, ond fe all olygu hefyd na fydd digon o arian ar ôl ganddynt i brynu cinio.

Mae llawer o blant a phobl ifanc eraill sy'n byw mewn **teuluoedd incwm is nad ydynt yn bodloni'r trothwy ariannol ar gyfer eFSM**. Mae'r teuluoedd hyn yn aml yn cael trafferth i ddarparu bwyd neu i dalu am brydau ysgol a gallan nhw hefyd brofi ansicrwydd bwyd a'r straen a'r pryder sy'n rhan o hynny.

Mae annog a chefnogi teuluoedd cymwys i hawlio a derbyn eFSM yn bwysig er mwyn helpu i leihau ansicrwydd bwyd a newyn. Ond mae'n bwysig hefyd o ran gallu teuluoedd i gael mynediad at gymorth a grantiau ychwanegol sydd ond ar gael i bobl eFSM, fel y Grant Hanfodion Ysgol.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn caniatáu i ysgolion amrywio eu strwythur codi tâl am fwyd a diod. **'Codi tâl hyblyg'** yw'r enw ar hyn. O dan ganllawiau codi tâl am fwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion a gynhelir Llywodraeth Cymru, mae gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion bŵer i fod yn hyblyg o ran codi tâl am brydau ysgol. Gall ysgolion ddefnyddio'r drefn hon mewn sawl ffordd wahanol i gefnogi teuluoedd incwm is sydd heb fod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Er enghraifft, trwy godi llai am brydau bwyd, cyflwyno taliadau fesul cam, prisiau gostyngol neu brydau bargen.

***"Mae plant yn dweud eu bod nhw ddim eisiau bwyd, a dydyn nhw ddim yn dod â bwyd mewn. Y rheswm am hynny yw bod dim ganddyn nhw"***



Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Brecwast Ysgol

Bydd gan bron pob ysgol rywfaint o brofiad o blant yn cyrraedd yr ysgol heb fwyta brecwast a gall athrawon dybio eu bod efallai ar frys y bore hwnnw neu nad oedd eu rhieni/gofalwyr yn sicrhau eu bod wedi bwyta cyn gadael y tŷ. Gallai hynny fod yn wir yn achos rhai dysgwyr, ond o ystyried pa mor gyffredin yw tlodi yng Nghymru a'r niferoedd sy'n profi ansicrwydd bwyd, mae'n bur debygol bod diffyg brecwast yn ymwneud â thlodi, yn hytrach na diffyg amser a dulliau magu plant.

**Mae brecwast yn bwysig ac o gymorth i ddysgu ac ymgysylltu**. Canfu ymchwil gan Brifysgol Caerdydd fod cyswllt sylweddol rhwng bwyta brecwast a pherfformio'n uwch na'r cyfartaledd o ran sgorau asesiadau athrawon. Yn 2023, cyhoeddodd Sefydliad Maeth Prydain adroddiad a amlygodd fod **darpariaeth brecwast ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd deiet, statws pwysau a deilliannau cysylltiedig â'r ysgol.**

Gall pob plentyn sy'n mynd i ysgol gynradd a gynhelir gael brecwast iach am ddim yn yr ysgol, os yw'r ysgol yn darparu cynllun brecwast am ddim. Yn ôl ymchwil gan Magic Breakfast, mae tua 81% o ysgolion cynradd yn cynnig darpariaeth brecwast. Ond, mae arolwg a gynhaliwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a Parentkind yn dangos bod 1 o bob 7 teulu yn methu cael lle brecwast, naill ai oherwydd diffyg lle yn yr ysgol neu am nad oedd eu hysgol yn cynnig y ddarpariaeth hon. Gwaetha'r modd, teuluoedd incwm is oedd yn fwyaf tebygol o fod ag angen lle ond yn methu â'i gael.

## Llwgu yn ystod y Gwyliau

I deuluoedd sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim yn ystod y tymor, **mae bwydo'u plant yn ystod gwyliau'r ysgol yn gallu bod yn heriol**. Cydnabyddir yn gyffredinol bod angen darparu bwyd ar yr adegau hyn ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac elusennau wedi gwneud hynny trwy raglenni, cynlluniau a gweithgareddau.

Mae'n anochel bod y ddarpariaeth hon yn ddibynnol ar gyllid ar lefel leol a chenedlaethol a'i bod felly yn amrywio bob blwyddyn ac ar draws ardaloedd awdurdod lleol. Gall y ddarpariaeth amrywio o fewn ardal awdurdod lleol hyd yn oed, ac mae hynny'n arbennig o amlwg lle caiff prosiectau eu cynnal gan sefydliadau elusennol megis grwpiau ffydd neu grwpiau cymunedol. Mae'n werth gwirio'n rheolaidd i weld a oes cynlluniau ar waith yn nalgylch eich ysgol.

Rhaglen a fu ar waith ers rhai blynyddoedd yw 'Bwyd a Hwyl', Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei gweinyddu trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rhaglen mewn ysgolion yw hon sy'n darparu prydau iach, addysg am fwyd a maeth, gweithgareddau corfforol a sesiynau cyfoethogi yn ystod gwyliau'r haf i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol. Gan weithio gydag awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol, mae'r rhaglen yn cyflwyno cynlluniau 'Bwyd a Hwyl' ledled Cymru. Mae gwerthusiad diweddar o'r rhaglen i'w weld yma.




| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

**Gall ysgolion wneud llawer i helpu dysgwyr  o deuluoedd incwm is a theuluoedd difreintiedig sy'n profi ansicrwydd bwyd a newyn.  Er enghraifft, gallai ysgolion wneud y canlynol:**

- Recriwtio '**Hyrwyddwr Tegwch**' o blith staff yr ysgol er mwyn hyrwyddo tegwch i bawb. Ei rôl fydd nodi, monitro a chefnogi dysgwyr, gan ymgysylltu â nhw a'u rhieni/gofalwyr mewn modd cadarnhaol a sensitif.

  Yn rhan o'r Ymchwiliad i Fwyd Plant yn y Dyfodol, awgrymodd pobl ifanc fod angen athro penodedig sydd yno i gefnogi plant a'i gwneud yn haws i siarad am broblem llwgu. Byddai rhoi aelod o staff yn yr ystafell fwyta yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r ysgol o ba ddysgwyr oedd yn cael trafferth gyda materion bwyd, ac yn eu galluogi i roi ffyrdd mwy effeithiol o ddelio gyda phroblemau ar waith yn y dyfodol.
- Penodi '**Llysgennad Tegwch**' o blith y dysgwyr, a all nodi pa ddisgyblion sy'n llwglyd, neu'r rhai nad oes ganddynt ddim neu fawr ddim i'w fwyta yn ystod y diwrnod ysgol, gyda chefnogaeth gan staff yr ysgol a'r hyrwyddwr tegwch.
- Hyrwyddo **dull ysgol gyfan** sy'n annog dysgwyr i siarad â'u hathrawon neu gydag aelod penodol o staff os ydynt yn pryderu am ddysgwr arall.
- **Cynyddu ymwybyddiaeth holl staff yr ysgol** o sut mae nodi pa blant sy'n dangos arwyddion o fod yn llwglyd, a sut i ymateb yn sensitif a chysylltu â'r staff priodol.
- Sicrhau bod **yr holl rieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r rhaglen prydau ysgol am ddim**, ei manteision a sut i gyflwyno cais.  Darparu cymorth gyda'r broses hon a chynyddu ymwybyddiaeth o gymorth arall a all fod ar gael. megis cynllun Cychwyn Iach.
- Defnyddio'r Cwricwlwm i ddechrau **sgwrs am ansicrwydd bwyd**, ei ystyr a'i effaith.  Bydd hyn yn helpu i chwalu mythau, lleihau stigma a symud y dysgu ymlaen ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru.
- **Cynnal arolwg o'r holl ddysgwyr** i nodi ble gallai'r rhwystrau fod i sicrhau bod pawb yn cael eu trin â pharch ac urddas.
- Os yw eich ysgol yn rhan o'r cynllun Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd, gofalwch fod gan yr ysgol **ddigon o leoedd am ddim** i ddarparu ar gyfer yr holl blant sydd angen lle.  Os yw'r cynllun yn orlawn, ceisiwch atebion gyda'r awdurdod lleol.
- Os yw'r nifer sy'n manteisio ar glybiau brecwast yn isel ymysg teuluoedd incwm is, ystyriwch sut gallai'r ysgol **weithio gydag awdurdodau lleol a theuluoedd i gynyddu'r niferoedd.**  Mae deall anghenion rhieni a gofalwyr a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu yn elfen allweddol o'r gwaith hwn. Cofiwch gynnwys teuluoedd incwm is yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.
- **Cyfathrebu'n effeithiol a hyrwyddo'r** hawl i gael prydau ysgol am ddim gyda rhieni a gofalwyr.  Gall teuluoedd symud i mewn ac allan o dlodi wrth i'w hamgylchiadau newid ac efallai na fyddant yn sylweddoli beth sydd ar gael iddyn nhw.
- **Adolygu bwydlenni'r ysgol** a sicrhau bod dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn gallu fforddio nifer digonol o ddewisiadau bwyd iach.


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

**Er enghraifft, gallai ysgolion wneud y canlynol:**

- Yn unol â Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009, sicrhau bod **dŵr yfed am ddim** ar gael bob amser a thrwsio ffynhonnau dŵr sydd wedi torri neu mewn cyflwr gwael.

  Trwy gynnig dŵr yfed am ddim, mae ysgolion yn helpu i hyrwyddo dewisiadau iachach, lleihau gwastraff plastig a sicrhau bod plant o deuluoedd incwm is yn gallu defnyddio'u harian i brynu bwyd.
- Adolygu'r trefniadau amser cinio. **Cynnal archwiliad** i weld ble gellir gwneud gwelliannau, gwirio bod dewisiadau iach, fforddiadwy ar gael i'r holl blant, bod ganddynt ddigon o amser i fwyta ac nad oes rhaid iddynt aros yn rhy hir am egwyl. Yn ddelfrydol, ni ddylai amser cinio fod yn hwyrach na 12.30pm.
- Bod yn ymwybodol o deuluoedd sydd mewn trafferthion oherwydd dyledion prydau ysgol, rhoi gwybod i'r tîm arlwyo ac annog teuluoedd i siarad â nhw. Siarad yn sensitif â rhieni a gofalwyr am **ôl-ddyledion prydau ysgol**. Gweithio gyda theuluoedd i geisio datrys y sefyllfa ac ystyried dileu'r ddyled os bydd angen.
- Archwilio ffyrdd o dalu **costau cinio** dysgwyr sy'n cael trafferth i dalu. Er enghraifft, rhoi benthyg arian cinio neu ddarparu bwyd pan fydd ar blant ei angen.
- Nodi a oes unrhyw gynlluniau neu **raglenni darparu bwyd yn ystod y gwyliau** ar waith yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Os oes, rhowch wybod i'r holl staff a hyrwyddo'r ddarpariaeth hon i deuluoedd incwm is. Os bydd angen i deuluoedd wneud cais neu gofrestru ar gyfer y ddarpariaeth hon, rhowch gefnogaeth ac anogaeth iddyn nhw wneud hynny.
- **Cynnwys y dysgwyr** ym mhob agwedd o'r gwaith cwmpasu, llunio newidiadau posib a gwneud penderfyniadau, gan sicrhau bod y rhai mae hyn yn fwyaf tebygol o effeithio arnyn nhw yn cael eu cynnwys yn y grŵp hwn.
- Defnyddio adnoddau 'Cofia Ceri'. Datblygwyd yr **adnoddau** hyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant i helpu ysgolion i symud ymlaen gyda rhai o'r camau a restrwyd. Mae'r adnoddau am ddim yn helpu plant, pobl ifanc a staff i feddwl am gostau'r diwrnod ysgol, sut maen nhw'n effeithio ar deuluoedd a nodi beth sy'n gweithio'n dda yn eich ysgol a'r hyn allai weithio'n well.

## Enghreifftiau o Ymarfer

- Bu un ysgol gynradd yng Nghymru yn hyrwyddo prydau ysgol am ddim trwy osod baner fawr yn yr ysgol yn ystod pythefnos gyntaf tymor yr Hydref. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cais.
- Mae siop ffrwythau a llysiau teuluol yn Abertawe wedi ymuno â Chynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru i ddarparu ffrwythau ffres i ysgolion. Caiff y ffrwythau hyn eu dosbarthu yn ystod yr egwyl.
- Mae un ysgol uwchradd, mewn partneriaeth â'i hawdurdod lleol, wedi gwella gwerth maethol ei chinio. Cyflwynwyd y newid ar ôl ymgynghori â'r dysgwyr.


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i wella lles plant o deuluoedd incwm is



# CYMRYD RHAN YM MYWYD YR YSGOL

4


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Cyflwyniad

I raddau helaeth, bydd lefel ymgysylltiad dysgwyr â bywyd yr ysgol a'u rhan yn y bywyd hwnnw yn pennu eu canlyniadau addysgol hirdymor.

Gall disgyblion o deuluoedd incwm is wynebu **heriau sylweddol o ran gallu cymryd rhan** yn yr ystod amrywiol o ddysgu academaidd a chyfleoedd eraill ehangach mewn ysgolion ac elwa ohonynt.

Nod y canllaw hwn yw nodi'r plant sy'n aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol ac ystyried sut gall ysgolion eu cefnogi orau.

Mae Deddf Addysg (1996) yn nodi na chaiff ysgolion godi tâl am unrhyw ddeunyddiau sy'n ymwneud â chyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod cyni parhaus yn golygu bod cyllidebau ysgolion yn cael eu gwasgu flwyddyn ar ôl blwyddyn a bod ysgolion yn gorfod cymryd camau eithafol i leihau costau. Un o ganlyniadau hynny sy'n effeithio'n arbennig ar blant o deuluoedd incwm is yw bod **gofyn cynyddol i rieni dalu** 'cyfraniadau gwirfoddol' neu gynnig cymhorthdal ar gyfer eitemau, deunyddiau neu brofiadau sy'n gysylltiedig â chyflwyno pynciau'r cwricwlwm.

Yn aml, gall llyfrau fod yn brin ac felly cânt eu rhannu rhwng y dysgwyr. Gall hyn olygu bod rhaid aros yn hir i gwblhau gwaith cwrs. Mae rhieni sy'n gallu fforddio prynu'r llyfrau a'r eitemau cysylltiedig ar gyfer eu plant yn gwneud hynny, gan roi mantais bendant iddynt dros eu cyfoedion llai cefnog.

Gall disgwyliadau ac ymatebion athrawon i'r dysgwyr hynny sy'n cyrraedd yr ysgol heb yr adnoddau neu'r deunyddiau cywir amrywio'n aruthrol rhwng ysgolion a rhwng athrawon yn yr un ysgol**. Gall disgwyliadau anghyson ac arferion ansensitif achosi dryswch** a braw i lawer o blant y mae eu rhieni, yn syml, yn methu fforddio unrhyw gostau ychwanegol.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Teithiau ysgol

Ni chaniateir codi tâl am deithiau ysgol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar godi tâl yn datgan na ddylid codi tâl am deithiau ysgol ar deuluoedd unrhyw blentyn sy'n cael prydau ysgol am ddim. Yn ôl Sefydliad Bevan, fodd bynnag, nid oedd bron chwarter y plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi hawlio'r hyn oedd ar gael iddynt oherwydd y stigma a'r cywilydd sy'n aml yn gysylltiedig â phrydau ysgol am ddim, i blant a'u rhieni a'u gofalwyr. Yn arwyddocaol, amcangyfrifir nad yw 55,000 o blant sy'n byw mewn tlodi yn bodloni'r trothwy cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Efallai **na fydd** dysgwyr yn y sefyllfaoedd hyn **yn gallu fforddio cost y 'cyfraniadau gwirfoddol' a awgrymir** a gallent golli cyfle. I blant ag anghenion cymorth ychwanegol hefyd, gall fforddiadwyedd fod yn rhwystr mwy fyth.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Godi Tâl mewn Ysgolion yn datgan:

**"Wrth drefnu teithiau a gweithgareddau ysgol, dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid wneud cymaint ag sy'n ymarferol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn cael eu rhoi o dan anfantais yn annheg. Mae'r pwysau o ran cost ar deuluoedd incwm isel yn sylweddol a dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid geisio sicrhau nad yw hynny'n cael ei waethygu er anfantais i'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'n bwysig cydbwyso gwerth addysgol teithiau preswyl yn erbyn eu cost ariannol."**

Mae colli cyfle i fynd ar deithiau ac ymweliadau addysgol yn golygu bod disgyblion nad yw eu teuluoedd yn gallu fforddio'r gost yn aml yn **teimlo'n ynysig, yn chwithig ac yn siomedig**. Gwelir eu bod nid yn unig yn colli gwerth addysgol a chyfoethogi'r daith ond hefyd yn colli'r disgwyliadau a'r cyffro cyn y daith, a'r straeon a'r profiadau sy'n cael eu rhannu ymysg eu grŵp cyfoedion ar ôl y digwyddiad.

Gallent gael hyd i ffyrdd o amddiffyn eu hunain a'u teulu rhag yr embaras hwn, trwy ymddygiad gwael sy'n arwain at waharddiad, trwy ymddieithrio, ffugio diffyg diddordeb neu salwch.

Yn arolwg tlodi 2023, dywedodd 39% o'r plant a'r bobl ifanc fod teithiau ysgol yn un o'r materion mwyaf tebygol o effeithio ar y rhai oedd yn byw mewn tlodi. Soniwyd bod **y rhai sy'n methu fforddio mynd ar deithiau yn teimlo wedi'u heithrio a'u hynysu a'u bod yn fwy tebygol o gael eu bwlio am beidio â bod yn bresennol.**

Yn yr un arolwg, soniodd plant hefyd am deimlo dan straen ac yn fwy pryderus cyn ac ar ôl teithiau ysgol. Er enghraifft, gallai'r llythyr cyn y daith gyda gwybodaeth a chostau roi rhieni dan bwysau ac wedi'r daith, byddai trafodaethau rhwng yr athro a'u cyfoedion yn cynyddu teimladau o fod yn ynysig a chael eu cau allan.

Hyd yn oed os bydd ysgolion yn cynnig cymhorthdal neu'n talu'n llawn am wibdeithiau, mae'n debygol y bydd costau ychwanegol o hyd ar gyfer gweithgareddau eraill, bwyd a byrbrydau. Nid yw'n beth dieithr i rieni fynd i ddyled i alluogi eu plant i fynychu.

***"Weithiau mae teithiau ysgol yn bwysig i'ch addysg, a byddai'n dda gweld hynny"***
(plentyn/person ifanc 10-13 oed)

Adroddiad Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES



## Cyfoethogi a gweithgareddau eraill

Gan fod ysgolion yn gynyddol yn methu cynnig gweithgareddau cyfoethogi am ddim, mae’r gweithgareddau hyn **fwyfwy allan o gyrraedd llawer o blant** mewn teuluoedd incwm is.

Gall gweithgareddau ar ôl ysgol sy’n cael eu cyflwyno am ddim, fel clybiau gwaith cartref neu weithgareddau chwaraeon hefyd fod y tu hwnt i lawer o ddysgwyr sy’n dibynnu ar gludiant am ddim o’r ysgol, sydd ond ar gael ar ddiwedd oriau arferol yr ysgol. Mae hyn yn effeithio ar bob ysgol ond gall fod yn arbennig o amlwg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion â chymeriad crefyddol. Yn ogystal ag ymarferoldeb a fforddiadwyedd trafnidiaeth, gall meysydd eraill gyflwyno rhwystrau i blant sy’n byw mewn teuluoedd incwm is yn ogystal, er enghraifft cost dillad, esgidiau neu offer ychwanegol neu benodol ar gyfer chwaraeon.

Gall gweithgareddau codi arian neu ddiwrnodau ‘hwyl’ ynysu neu eithrio dysgwyr o deuluoedd incwm is ymhellach.  Er enghraifft, gall gweithgareddau codi arian megis diwrnodau ‘gwisg anffurfiol’, lle mae disgyblion yn talu swm bach i wisgo’u dillad cartref, achosi straen a phryder i ddisgyblion a’u rhieni.  Nid yn unig mae’r swm bach yn gost ychwanegol i deuluoedd, ond mae plant a phobl ifanc hefyd yn pryderu am y dillad y byddan nhw’n eu gwisgo a gall hyn achosi trallod, yn enwedig i’r rhai sy’n byw mewn tlodi.

***“Wynebu llawer o fwlio am fod yn dlawd. Bod heb bethau sydd gan eraill, a theimlo eich bod chi’n cael eich gadael allan. Teimlo’n unig ac mae eich bywyd yn wag”***
(plentyn/person ifanc 14-16 oed)


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a’r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Cyfoethogi a gweithgareddau eraill

Mae diwrnodau gwisg arbennig hefyd yn gallu **creu rhwystrau ychwanegol** i blant o deuluoedd incwm is oherwydd, yn aml, mae disgwyliad neu angen i **brynu gwisg a/neu ddeunyddiau i greu un**. Gall rhai ysgolion 'roi benthyg' gwisgoedd i ddisgyblion os bydd angen ond mae'r rhain yn aml yn hen, yn rhy fawr/fach, heb eu golchi ac angen eu trwsio. Yn yr achosion hyn, gallai dysgwyr deimlo gormod o embaras neu gywilydd i'w gwisgo nhw gan deimlo eu bod yn tynnu sylw at eu hamgylchiadau, a fyddai'n arwain at fwlio. I osgoi teimlo chwithdod, gall plant sy'n dal i ddod i'r ysgol ar y diwrnodau hyn ddweud eu bod wedi 'anghofio' am y gweithgaredd, ond maen nhw'n dal yn debygol o deimlo wedi'u heithrio.

Mae'r arfer o **brynu anrheg i athrawon** ar ddiwedd y flwyddyn ysgol wedi dod yn norm mewn llawer o ysgolion ac mae rhieni yn aml yn ceisio prynu anrheg ddrud neu anarferol ar gyfer athrawon. Unwaith eto, gall hyn fod yn her arbennig ac yn bwysau ar deuluoedd incwm is a all deimlo y gallai'r ysgol, rhieni eraill neu ddisgyblion eraill gamddehongli'r ffaith nad ydynt yn prynu anrheg diwedd tymor/blwyddyn.

Gall **gweithgareddau diwedd tymor**, megis digwyddiadau 'ymadawyr', sy'n aml yn cael eu trefnu gan rieni eraill, fod yn gostus ac eithrio llawer o ddysgwyr sy'n methu cyfrannu'n ariannol, a fydd felly yn colli cyfle.

Mewn **pynciau ymarferol** sy'n defnyddio deunyddiau neu gynhwysion, bydd ysgolion yn aml yn codi tâl am yr 'ychwanegiadau dewisol' hyn os bydd dysgwyr am fynd â'u cynnyrch gorffenedig adref. Gall hyn wneud i ddisgyblion o deuluoedd incwm is deimlo wedi digalonni a'u bod yn methu rhannu eu profiad dysgu a'u balchder gyda'u teulu.



*'Ar gyfer dylunio, mae'n rhaid i ni dalu £6 i wneud ein modelau a mynd â nhw adref. Felly, os nad ydyn ni'n talu amdano, allwn ni ddim ei ddefnyddio, felly rydyn ni wedi'i wneud am ddim rheswm.'*


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Yr effaith ar blant a phobl ifanc

Mae disgyblion o deuluoedd incwm is neu deuluoedd difreintiedig yn ymwybodol iawn o wahaniaethau cymdeithasol ac maen nhw'n pryderu am stigma ac am gael eu barnu gan eu cyfoedion a'u hathrawon. Mae'n effeithio'n negyddol ar eu hunan-barch, eu hyder a'u lles, a'u gallu cyffredinol i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.

Gwyddom fod **dysgwyr o deuluoedd incwm is yn fwy tebygol o brofi bwlio cysylltiedig â thlodi**. Yn arolwg tlodi Plant yng Nghymru 2023, cafodd canlyniadau hynny eu mynegi'n glir gan blant a phobl ifanc.

***"Mae bwlio mewn ysgolion oherwydd cyfoeth yn ofnadwy. Fel rhywun a gafodd brofiad difrifol o hynny, mae'n eich dinistrio chi ac yn lladd unrhyw hunan-hyder neu hunan-werth sydd gennych chi"***
(person ifanc 17-18 oed)

Yn ogystal, gall costau ategol astudio pynciau effeithio ar y pynciau y mae dysgwyr yn dewis eu hastudio ar lefel TGAU neu safon uwch. Er enghraifft, efallai na fydd plentyn sy'n dalentog mewn celf, dylunio a thechnoleg neu gerddoriaeth a drama neu sydd â diddordeb yn y pynciau hyn yn gallu cymryd y pwnc oherwydd costau ychwanegol adnoddau a deunyddiau na all eu teulu eu fforddio. Mewn adroddiad gan y Comisiwn Tlodi Plant, nodwyd bod tua **30% o blant o deuluoedd incwm isel wedi colli tir yn y pynciau craidd** oherwydd bod eu teulu'n methu fforddio'r llyfrau neu'r deunyddiau angenrheidiol.

Er nad oes unrhyw fai arnynt, mae incwm is a thlodi yn effeithio yn ariannol, yn gorfforol ac yn emosiynol ar allu plant i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud .......

Bydd cymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a'r holl gyfleoedd a gyflwynir trwy weithgareddau dosbarth a gweithgareddau allgyrsiol yn **cynyddu hyder a hunan-barch dysgwyr**, eu sgiliau cymdeithasol ac, yn y pen draw, eu cyrhaeddiad addysgol.

Mae llawer y gall ysgolion ei wneud i helpu disgyblion o deuluoedd incwm is neu deuluoedd difreintiedig a goresgyn llawer o'r rhwystrau i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol.

- **Penodi Hyrwyddwr Tegwch** o blith staff yr ysgol i hyrwyddo tegwch i bawb. Gall yr hyrwyddwr wneud y canlynol:
  - **Nodi, monitro a chefnogi** dysgwyr o deuluoedd incwm is neu deuluoedd difreintiedig
  - **Ymgysylltu** â'u rhieni a'u gofalwyr mewn modd cadarnhaol a sensitif, i roi gwybod iddynt am unrhyw grantiau sydd ar gael.

## Grant Hanfodion Ysgol

- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid trwy'r Grant Hanfodion Ysgol (SEG) sydd ar gael i ddysgwyr sy'n **gymwys i gael prydau ysgol am ddim** a'r holl blant sy'n derbyn gofal. Gall rhieni/gofalwyr ddefnyddio'r grant hwn i dalu am wisg ysgol, offer a gweithgareddau.
- **Rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am SEG a sut i'w hawlio.** Mae'r grant ar gael trwy'r awdurdod lleol a gellir ei hawlio ar unrhyw adeg rhwng mis Gorffennaf a'r mis Mai dilynol.

## Dewis pynciau

- Sicrhau **nad yw unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â phwnc yn atal** dysgwyr rhag dewis cwrs penodol. Ni ddylid perswadio dysgwyr i beidio â dewis pwnc penodol ac ni ddylent wynebu rhwystrau ariannol i gymryd rhan lawn.
- **Rhoi gwybod i rieni a gofalwyr am grantiau** a bwrsariaethau addysg a all gefnogi dysgwyr i brynu'r adnoddau angenrheidiol er mwyn ymgymryd â phwnc penodol.




| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

## Teithiau a gweithgareddau

Mae angen i ddulliau o ddarparu cymhorthdal ar gyfer costau teithiau ysgol fod yn **sensitif ac yn ddi-stigma**. Er enghraifft, ni ddylid disgwyl i ddysgwyr orfod gofyn am help. Dylai aelod o staff y gellir ymddiried ynddyn nhw neu'r Hyrwyddwr Tegwch siarad â dysgwyr mewn modd sensitif a chefnogol, gan sicrhau nad ydynt yn teimlo stigma nac embaras. Dylai'r dull hwn gael ei wreiddio ym mholisïau ac ethos yr ysgol.

- Gallai'r Hyrwyddwyr tegwch neu staff llesiant **gyflwyno cais am grantiau bychain** (megis y rhai sydd ar gael yn Cyllid Cymru) y gellir eu defnyddio tuag at gefnogi costau teithiau ysgol i ddysgwyr o deuluoedd incwm isel.
- Trefnu **teithiau ysgol sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch** i bob dysgwr.
- Rhoi **digon o rybudd** am deithiau sy'n cael eu trefnu er mwyn helpu rhieni a gofalwyr i gynllunio a chyllidebu'n haws.
- Cynnig opsiynau **talu drwy randaliadau** gan y gallai hynny helpu i leihau pwysau ariannol, ond cofiwch fod yr opsiwn hwn yn dal yn gallu bod yn anodd yn ariannol i rieni.
- Ystyried **a oes modd cynnal y gweithgaredd yn yr ysgol**, yn hytrach na mynd â'r plant allan o'r ysgol.  Gweithio gyda chwmnïau, mentrau a sefydliadau lleol i weld a fyddai hynny'n bosib.
- Sicrhau bod **gwybodaeth** am fenthycwyr arian cost isel, megis undebau credyd, ar gael i rieni, ond heb ddisgwyl eu bod nhw'n defnyddio'r gwasanaeth hwn.

## Gweithgareddau codi arian

Mae modd defnyddio arian a godir trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau i gynnig cymhorthdal neu i dalu am deithiau a gweithgareddau ysgol. **Ni ddylai'r** gweithgareddau codi arian hyn **ofyn i ddysgwyr am arian yn uniongyrchol** a rhaid cymryd gofal i sicrhau bod modd i'r dysgwyr gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, heb fod angen na disgwyliad iddynt gyfrannu'n ariannol.

Rhaid rhoi ystyriaeth sensitif i weithgareddau codi arian, sy'n gallu bod yn eang eu cwmpas, yn dibynnu ar anghenion, cyfleusterau ac adnoddau'r ysgol.  Gallent gynnwys

- **nofio noddedig** neu daith feicio rithwir ar feic ymarfer i leoliad y daith
- **Hysbysebu** digwyddiadau codi arian ar y cyfryngau lleol a'r cyfryngau cymdeithasol
- Trefnu i **gasglu arian mewn archfarchnad** neu mewn digwyddiadau chwaraeon lleol
- Trefnu cyfweliad ar **orsaf radio leol** ac apelio am arian
- Gofyn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon neu'r Cyngor Rhieni drefnu **digwyddiad noddedig**, megis Noson Bingo neu Gwis Tafarn
- Gofyn i **fusnesau lleol** noddi sesiynau codi sbwriel yn y parc neu'r ardal leol.

Pa ddull codi arian bynnag a ddewiswch, **cofiwch ystyried effaith y gweithgaredd hwnnw ar ddysgwyr** o deuluoedd incwm is.  Ystyriwch a yw'r gweithgaredd yn gofyn am wariant ariannol gan y dysgwyr gan fod angen osgoi hynny.  Cofiwch fod gwariant ariannol yn cyfeirio at ddillad ac offer hefyd.


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i wella lles plant o deuluoedd incwm is



# PERTHYNAS RHWNG Y CARTREF A'R YSGOL

5


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Cyflwyniad

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y berthynas rhwng y cartref a'r ysgol. Mae **cysylltiad cydnabyddedig rhwng yr amgylchedd dysgu yn y cartref a pherfformiad plant** o bob oedran yn yr ysgol. Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn dangos bod ymgysylltiad rhieni yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a chyrhaeddiad addysgol plant.

Bydd ble mae plentyn yn byw, gyda phwy mae'n byw, a'r amgylchedd y mae'n byw ynddo i gyd yn effeithio ar allu plentyn a'i barodrwydd i ddysgu yn yr ysgol, yn ogystal â'i iechyd meddwl a'i les yn y presennol a'r dyfodol. Mae tystiolaeth dda bod **plant y mae eu rhieni yn ymwneud yn gadarnhaol ag addysg eu plentyn yn fwy tebygol o gyflawni deilliannau addysgol gwell**. Mae llawer o ysgolion yn rhagweithiol iawn o ran deall y sefyllfa hon, gan ymgysylltu â rhieni a nodi atebion a all oresgyn rhwystrau i hwyluso gwell perthynas rhwng y cartref a'r ysgol.




Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Ymgysylltiad rhieni

Bydd pob rhiant a gofalwr am gael y gorau i'w plant, waeth beth fo'u sefyllfa bresennol, eu cefndir neu eu profiad personol blaenorol o ddysgu a'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd rhai rhieni a gofalwyr o gefndir incwm is a chefndir difreintiedig yn llai tebygol neu abl i gymryd rhan weithredol yn addysg ac astudiaethau eu plant.

Bydd y modd y mae teuluoedd yn rhyngweithio ag ysgol eu plentyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau a allai gynnwys **profiadau eu plentyndod eu hunain yn yr ysgol; y pellter rhwng y cartref a'r ysgol; costau teithio; ymrwymiadau gwaith; cyfrifoldebau gofalu; iechyd meddwl; rhwystrau iaith os yw eu plentyn yn dod o gartref di-Gymraeg ac yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg a pha mor barod a gweithredol yw'r ysgol wrth ymgysylltu â rhieni.**

Gwelwyd bod sefydlu cysylltiadau cadarnhaol agosach rhwng yr ysgol a'r cartref yn cael effaith gadarnhaol ar les y disgybl. Mae rhai ysgolion yn gwneud ymdrechion mawr i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, fel hyrwyddo mentrau â'r nod o feithrin cysylltiadau cryf rhwng ysgolion a rhieni trwy ddigwyddiadau dysgu i deuluoedd, diwrnodau agored anffurfiol ac ymweliadau cartref.

Cydnabyddir ei bod hi'n llawer haws meithrin a chynnal perthynas â rhieni mewn ysgolion cynradd nag yn yr ysgol uwchradd, yn rhannol oherwydd nifer y disgyblion. Fodd bynnag, os yw rhieni yn ymwneud â'r ysgol gynradd, mae'n fwy tebygol y byddant yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol yn addysg eu plentyn, ar ôl iddyn nhw bontio i'r ysgol uwchradd.

Gall cael **aelod penodedig o staff sydd ar gael yn agored ac yn amlwg ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol** i rieni siarad â nhw fod yn werthfawr iawn o ran meithrin ymddiriedaeth a pherthynas rhwng rhieni a'r ysgol. Mae cael **polisi 'drws agored'** y rhoddwyd cryn gyhoeddusrwydd iddo, a chroeso cynnes a staff cefnogol hefyd yn offeryn effeithiol wrth ymgysylltu â rhieni.

Mae **cyfathrebu effeithiol** â theuluoedd, wedi'i deilwra i wahanol anghenion rhieni, yn hanfodol er mwyn sicrhau ymgysylltiad cadarnhaol â rhieni.

Mae'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan ysgolion yn gallu amrywio'n aruthrol a byddant yn arwain at ganlyniadau gwahanol fel arfer. Er enghraifft, mae rhai ysgolion ond yn anfon llythyrau at rieni a gofalwyr, fydd yn aml heb gael eu gweld. Mae rhieni wedi dweud bod cyfathrebu ysgrifenedig ysgolion yn aml yn anodd ei ddeall, nid yw'r Saesneg yn glir bob amser ac nid yw bob amser yn eu cyrraedd.

Fodd bynnag, gwelir bod negeseuon testun, y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu digidol arall yn ddulliau poblogaidd ac effeithiol o gyfathrebu. Mae Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y Deyrnas Unedig yn darparu canllawiau, adnoddau a chyngor i ysgolion sy'n ymgysylltu â rhieni trwy'r dull hwn.



Er bod gwybodaeth a sgiliau digidol yn cynyddu, rhaid sylweddoli bod cyfathrebu yn y modd hwn yn gallu achosi anawsterau i rai teuluoedd incwm is. Er enghraifft, efallai na fydd teuluoedd yn gallu fforddio prynu ffôn neu liniadur a thalu am drydan wedyn i wefru'r cyfarpar hwn yn gyson. Bydd llawer o deuluoedd hefyd yn cael trafferth gyda chost data ac efallai na fydd yr hyder na'r sgiliau cyfathrebu gan rai i ryngweithio neu ymateb trwy'r cyfrwng hwn.


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru

Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU

CHILDREN IN WALES

## Gwaith cartref

Gall rhieni a gofalwyr wynebu **llawer o rwystrau** hefyd wrth gefnogi addysg eu plentyn. Mae llawer o ysgolion yng Nghymru bellach yn defnyddio meddalwedd neu apiau i osod gwaith cartref ac yn gofyn ei fod yn cael ei gyflwyno ar-lein.

Efallai na fydd gan deuluoedd incwm is gyfrifiadur, neu efallai bydd ganddynt un ddyfais yn unig sy'n cael ei rhannu rhwng sawl plentyn ac oedolyn, gan gyfyngu ar yr amser sydd ar gael i gwblhau gwaith. Lle bydd gan deuluoedd gyfrifiadur, gall hwnnw fod yn hen ac yn methu cefnogi'r feddalwedd angenrheidiol. I eraill, yr unig ddyfais sydd ar gael yw ffôn symudol nad yw'n addas ar gyfer cwblhau gwaith cartref

Nid mynediad at gyfrifiadur neu ddyfais yn unig sy'n gallu creu rhwystrau. Mae **cost data** yn broblem sylweddol i lawer o deuluoedd incwm is, gyda nifer ohonynt yn gorfod dibynnu ar lecynnau Wi-Fi am ddim neu gyfyngu ar y data a ddefnyddir bob dydd.

Mewn adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol yn 2023, nododd teuluoedd bwysigrwydd dyfeisiau yn ogystal â chysylltedd a data symudol. Amlygwyd hefyd fod angen i ddyfeisiau fod yn ddigonol ac yn addas i'r diben.

Mae cyfrifiaduron a chysylltiad â'r rhyngrwyd yn y cartref yn gynyddol angenrheidiol i blant gael mynediad at eu gwaith cartref a'i gwblhau. Pan na fydd hynny'n bosib, mae plant a phobl ifanc yn sylweddoli eu bod yn colli tir yn eu gwaith ysgol.

**Mae clybiau gwaith cartref yn ddatblygiad cadarnhaol** ond efallai na fyddant bob amser yn hygyrch i blant o deuluoedd incwm is, gan na fydd y rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth am ddim i gyrraedd adref yn gallu bod yn bresennol.

Gall dysgwyr gael eu hannog i ddefnyddio'r llyfrgell leol i gwblhau eu gwaith cartref ond gall hynny hefyd greu rhwystrau os yw'r llyfrgell agosaf gryn bellter i ffwrdd, neu os oes rhaid iddynt aros i gyfrifiadur ddod ar gael. Yn ogystal, mae toriadau awdurdod lleol wedi effeithio ar lawer o lyfrgelloedd cyhoeddus, gan eu cau neu leihau eu horiau agor.

*"Rydym yn cael llwyth o waith cartref ac mae'r rhan fwyaf ohono ar y cyfrifiadur … Roedd yn rhaid i mi ofyn i'r athro argraffu dalen i mi ei llenwi ond roedd yr athro'n dal i ddweud nad oedd safon y gwaith cartref yn ddigon uchel. Byddwn i ond yn sgorio pump neu dri allan o 10."*


Cyflwyniad 0

Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3

Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4

Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru

Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU

CHILDREN IN WALES

## Trafnidiaeth

Mae teithio am ddim i blant dan 16 oed rhwng y cartref a'r ysgol yn dibynnu ar bellter yn hytrach na gallu teulu i dalu.

Pennir y pellter hwn ym [Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ]a chyfeirir ato fel 'pellter cerdded'. Mae gan ddysgwyr hawl i gael cludiant am ddim os yw'r pellter cerdded fel a ganlyn:

- **Ysgolion Uwchradd:** Mae dysgwyr yn byw 3 milltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf
- **Ysgolion Cynradd:** Mae dysgwyr yn byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf

Mae eithriadau i hyn os yw'r Awdurdod Lleol yn asesu bod y llwybr cerdded yn anniogel.

I'r dysgwyr hynny sy'n byw o fewn pellter cerdded, neu i'r rhai sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, mae tocynnau bws i blant yng Nghymru yn costio £10 - £15 yr wythnos, yn ôl ble mae'r plentyn yn byw. Mae hyn yn golygu y **gallai costau trafnidiaeth fod mor uchel â £40 - £60 y mis ar gyfer 1 plentyn oedran ysgol yn unig,** sy'n gost sylweddol i deuluoedd incwm is.

I bobl ifanc 16- 21 oed, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n rhoi gostyngiad o ⅓ ar bris tocynnau bws, ond unwaith eto, gall y gost hon fod yn rhwystr i addysg llawer o fyfyrwyr o deuluoedd incwm is neu deuluoedd difreintiedig.



**Mae dibyniaeth ar gludiant i'r ysgol yn effeithio ar allu'r dysgwr i gymryd rhan mewn gweithgareddau** sy'n digwydd ar ôl diwedd y diwrnod ysgol, fel clybiau cyfoethogi neu glybiau gwaith cartref a gweithgareddau chwaraeon. Os yw teulu'n methu fforddio talu am drafnidiaeth gyhoeddus amgen i alluogi eu plentyn i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, yna bydd eu plentyn yn colli cyfleoedd pwysig i ddysgu, chwarae a rhyngweithio'n gymdeithasol.




| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

## Amgylchedd y cartref

Gall amgylchedd y cartref fod yn **alluogwr neu'n rhwystr sylweddol** o ran pennu sut mae plant yn ymwneud â'r ysgol ac yn perfformio yno. Gall digartrefedd, ansicrwydd o ran tai, tai gorlawn a byw mewn tai is na'r safon i gyd gael effaith negyddol ar lefelau cyrhaeddiad disgybl. Er enghraifft, mewn cartref gorlawn, mae'n annhebygol bod lle tawel neu le personol i gwblhau gwaith cartref neu dasgau y tu allan i'r ysgol.

Bydd tai sy'n oer neu'n llaith hefyd yn cael effaith negyddol ar les a dysgu plentyn. Nododd [Arolwg Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023](#) fod amgylchedd y cartref yn anodd i lawer o blant sy'n byw mewn tlodi. Roedd plant a phobl ifanc yn pryderu'n arbennig am beidio â chael digon o arian i aros yn eu cartref, a gorfod byw mewn lle cyfyng heb unrhyw le preifat i wneud gwaith cartref neu i ymlacio.

Yn yr un arolwg, soniodd plant a phobl ifanc am eu pryderon ynghylch cartrefi oer a llaith, am fethu gwahodd ffrindiau draw, am ddiffyg mynediad i'r rhyngrwyd a'u bod yn methu fforddio prynu bwyd a thalu'r rhent.


Mae byw mewn cartrefi ac amodau tai anodd yn cael effaith gymdeithasol ac emosiynol ar blant. Mae cywilydd a stigma yn achosi straen a phryder i'r rhieni/gofalwyr a'r plant fel ei gilydd. Gall effeithio ar gyfeillgarwch a chyfyngu ar ryngweithio cymdeithasol, gan fod plant yn aml yn teimlo na allant wahodd ffrindiau i'r cartref oherwydd eu bod yn teimlo'n chwithig ac mae trafferthion a heriau ariannol ac emosiynol yn aml yn arwain at fwy o densiwn a dadleuon teuluol.

Gall **ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amgylchedd cartref y dysgwr** alluogi ysgolion i benderfynu ar y math o gymorth a lefel y cymorth y mae ar blentyn ei angen gan staff yr ysgol. Gall gwybod am y rhwystrau mae plant o deuluoedd incwm is yn eu hwynebu helpu ysgolion i deilwra eu cymorth yn ôl profiadau bywyd y plentyn.

***"Dydych chi ddim eisiau mynd adre. Does dim byd i'w fwyta, mae'n oer, yn llaith ac yn drewi. Allwn ni ddim fforddio pethau neis na lle cynnes"***

(plentyn/person ifanc 10-13 oed)

Adroddiad Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru 2023




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

**Mae llawer y gall ysgolion ei wneud i helpu i gefnogi dysgwyr o deuluoedd incwm is neu deuluoedd difreintiedig a gwella'r berthynas dysgu gartref rhwng y dysgwr, y rhieni/gofalwyr a'r ysgol.**

**Er enghraifft, gallai ysgolion wneud y canlynol :**


- Recriwtio '**Hyrwyddwr Tegwch**' o blith staff yr ysgol i hyrwyddo tegwch i bawb. Ei rôl yw nodi, monitro a chefnogi dysgwyr, ymgysylltu â nhw a'u rhieni/gofalwyr mewn modd cadarnhaol a sensitif
- Datblygu **diwylliant ysgol gyfan** sy'n rhoi gwerth ar ymgysylltu â rhieni ac yn darparu profiad croesawgar a chadarnhaol yn yr ysgol i rieni a gofalwyr.
- Ystyried y canllawiau ym mhecyn cymorth Llywodraeth Cymru *Wynebu'r her gyda'n gilydd*. Lluniwyd y **pecyn cymorth** hwn i gynnig cymorth ymarferol i ysgolion yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu a chryfhau eu dull o ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd (YGaTh).
- Ystyried ymgymryd â chynllun gwobrwyo *Buddsoddwyr mewn Teuluoedd Cymru*. Nod ansawdd yw **Buddsoddwyr mewn Teuluoedd** sy'n cydnabod y gwaith mae ysgolion yn ei wneud gyda theuluoedd i wella deilliannau plant a phobl ifanc.
- Penodi **swyddog cyswllt neu swyddog ymgysylltu â theuluoedd** i feithrin cysylltiadau â rhieni sy'n wynebu rhwystrau neu sy'n cael ychydig o gyswllt neu lai o gyswllt â'r ysgol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i **gynnig cyfleoedd dysgu i rieni a gofalwyr**. Er enghraifft, cyflwyno sesiwn cynhwysiant ariannol ar y cyd ag undebau credyd lleol neu Cyngor ar Bopeth.
- Gallai ysgolion cynradd fabwysiadu polisi o **ymweld â phob dysgwr newydd yn eu cartref**. Nid yn unig bydd gan ddysgwyr newydd wyneb cyfarwydd ar eu diwrnod cyntaf, ond bydd y rhieni'n deall ethos yr ysgol yn well a bydd yr ysgol yn dod i ddeall y teulu yn well ynghyd â'u hamgylchedd a'u hanghenion cymorth posib yn y dyfodol.
- Gallai ysgolion uwchradd gyflwyno **Noson Groeso i Rieni** er mwyn cwrdd â thiwtoriaid personol. Bydd darparu lluniaeth ysgafn yn annog rhieni i ddod i'r ysgol mewn modd cyfeillgar a chroesawgar ac yn gosod y cywair ar gyfer datblygu perthnasoedd.
- **Gweithio gyda'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon** neu'r Cyngor Ysgol i ddatblygu ffyrdd arloesol o annog teuluoedd incwm is i gyfranog,i gyda'r nod o sicrhau bod llais ganddynt ym mywyd yr ysgol.
- Ystyried sefydlu Cyngor Rhieni i helpu i lywio a chefnogi ffyrdd o wella ymgysylltiad â rhieni. Dylai'r Cyngor hwn **gynnwys rhieni** a gofalwyr o deuluoedd incwm is gan y bydd eu lleisiau nhw yn hynod werthfawr i lwyddiant y cynllun hwn.


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 0 |
| Deall Tlodi | 1 |
| Gwisg Ysgol a Dillad | 2 |
| Bwyd a Newyn | 3 |
| Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol | 4 |
| Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol | 5 |


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES


# Beth gall ysgolion ei wneud …….



## Gwaith cartref

I lawer o blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm is, mae cwblhau tasgau gwaith cartref yn aml yn gallu bod yn heriol. Gallai ysgolion helpu i liniaru'r heriau hyn trwy:

- Adolygu'r **polisi gwaith cartref** i sicrhau ei fod yn gynhwysol a'i fod yn cymryd elfennau ymarferol a fforddiadwyedd cwblhau'r dasg gartref i ystyriaeth.
- Edrych ar ffyrdd o gwblhau rhai **tasgau gwaith cartref** yn ystod y diwrnod ysgol, HEB beryglu na chyfyngu ar egwyliau hamdden ac amser cinio.  Cofio bod cinio yn gallu bod yn unig bryd y dydd i rai plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.
- Ystyried pryd mae'r ysgol yn cynnal **clybiau gwaith cartref**. Sicrhau eu bod yn hygyrch i ddysgwyr y gall eu teuluoedd gael trafferth i dalu am gostau trafnidiaeth ychwanegol ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol ac ystyried sut gellid goresgyn hynny.  Cynnal arolwg i nodi'r rhwystrau posib ar gyfer y rhai sy'n defnyddio clybiau gwaith cartref ar ôl ysgol, neu'r rhai a hoffai wneud hynny.
- Ystyried unrhyw **Apiau gwaith cartref** a ddefnyddir gan yr ysgol.  Oes modd eu defnyddio ar offer TG hŷn? Os nad oes, oes modd i chi addasu'r dasg er mwyn cynnwys pob dysgwr, heb achosi costau ychwanegol i'w teuluoedd?  Cofiwch fod costau ychwanegol yn cynnwys argraffu.
- Cyflwyno cais am **grantiau mynediad i brynu gliniaduron**. Gallai'r rhain gael eu rhoi i ddisgyblion o deuluoedd incwm is i'w galluogi i gwblhau tasgau gwaith cartref. Unwaith eto, cofiwch y gall fod yn anodd i deuluoedd fforddio costau trydan a data.
- Bod yn ymwybodol o **gynlluniau benthyg offer TG** a rhannu'r wybodaeth hon â theuluoedd.  Mae rhai llyfrgelloedd yn darparu'r cynlluniau hyn.




Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Beth gall ysgolion ei wneud …….

## Enghreifftiau o ymarfer

Yn **Ysgol Gynradd Herbert Thompson** mae creu cysylltiadau cryfach â rhieni/gofalwyr yn rhan o weledigaeth ehangach i roi lles wrth wraidd cenhadaeth yr ysgol a gweithio'n agosach gydag amrywiaeth o asiantaethau cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau plant yr awdurdod lleol a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd. Mae'r ysgol yn edrych y tu hwnt i giât yr ysgol ac yn mynd i'r afael â rhwystrau yn y cartref a'r gymuned ac yn rhoi pwys mawr ar berthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned. Maen nhw'n gweithio'n galed i feithrin perthynas â rhieni fel eu bod yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn cymryd diddordeb agos yn addysg eu plant. Mae hyn wedi cynnwys ymyriadau megis y **Cyngor Rhieni**; yr **hwb rhieni** sy'n agor bob dydd ac yn caniatáu i rieni gymysgu ar safle'r ysgol; **darpariaeth dysgu i oedolion**; a staffio priodol **a datblygiad proffesiynol.**

Mae **Ysgol Tŷ Gwyn** yn ysgol arbennig i bob oedran sy'n darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dwys a chymhleth. Mae gan yr ysgol **Ganolfan Deulu**, ar agor bob dydd yn ystod y tymor, sy'n cael ei staffio gan un cynorthwy-ydd addysgu lefel uwch ac un uwch-gynorthwy-ydd addysgu. Mae'r ganolfan yn darparu ystod eang o **gymorth a hyfforddiant** i deuluoedd sydd â phlant 0-19 oed, yn cynnwys hyfforddiant y Blynyddoedd Rhyfeddol, cymorth therapi, therapi cyffwrdd, llyfrgell deganau; canolfan technoleg gynorthwyol, cwnsela, ymweliadau cartref; gwaith allgymorth, sesiynau celfyddydau creadigol a gwersi Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL). Mae'r ysgol yn gwerthuso'r holl weithgareddau ac mae lefel uchel o **ymgysylltiad a gweithgarwch** gyda rhieni/ gofalwyr a'r gymuned oherwydd yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael.

**I weld enghreifftiau eraill o ymarfer edrychwch ar yr astudiaethau achos sydd hefyd ar gael gyda'r canllawiau hyn ar Hwb.**

Mae dull ysgol gyfan **Ysgol Uwchradd Casnewydd** yn cynnwys pob aelod o'r staff addysgu. Mae gan bob un sesiwn cyswllt cartref awr o hyd ar eu hamserlen, pan fyddant yn cysylltu â rhieni/gofalwyr eu grŵp tiwtor. Mae hyn fel arfer yn cynnwys galwad ffôn gadarnhaol i dynnu sylw at un agwedd galonogol o gynnydd academaidd y disgybl, ei agwedd tuag at fywyd yr ysgol neu ei ymddygiad. Cefnogir y **dull ysgol gyfan** gan **swyddog ymgysylltu â theuluoedd**, a ariennir gan y Grant Datblygu Disgyblion, sy'n gweithio i **gynyddu ymwneud y teulu â bywyd yr ysgol**, yn enwedig y teuluoedd hynny y mae eu plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Maen nhw hefyd yn mynychu diwrnodau adolygu academaidd ac yn trefnu gweithdai a digwyddiadau dysgu rheolaidd i rieni/ofalwyr. Mae tiwtoriaid B7 yn ymweld â disgyblion yn yr ysgolion sy'n bwydo sy'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.

Mae **Ysgol Parc Waundew** yn rhedeg mentrau 'PEAS' (Rhieni'n Ymgysylltu'n Weithredol yn yr Ysgol) a 'DREAMS' (Datblygu Darllen, Saesneg a Mathemateg) â'r nod o ymgysylltu â rhieni/gofalwyr i wella presenoldeb, llythrennedd a rhifedd. Anogir teuluoedd i ddod i'r ysgol gyda **'Dydd Gwener Teuluol',** Clwb Dysgu Uniongyrchol a chlwb 'Gemau Cenhedlaeth' ar ôl ysgol lle mae **rhieni/gofalwyr a phlant yn mynychu ac yn dysgu gyda'i gilydd**, gan gynnwys sgiliau TGCh, darllen a choginio ac ati. Mae'r ysgol yn helpu teuluoedd i ddatblygu ymagweddau cyson at lythrennedd a rhifedd. Mae cyfrifon 'Clwb Chwilod' a 'Sumdog' yn caniatáu i bob plentyn gael mynediad at lyfrau a deunyddiau rhifedd yn y cartref. Mae gwirfoddolwyr darllen sy'n rhieni/ ofalwyr yn helpu mewn ystafelloedd dosbarth. Mae teuluoedd hefyd yn ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. **Mae oedrannau darllen, canraddau rhifedd a chyfraddau presenoldeb i gyd wedi gwella'n sylweddol.**


Cyflwyniad 0
Deall Tlodi 1
Gwisg Ysgol a Dillad 2
Bwyd a Newyn 3
Cymryd rhan ym mywyd yr ysgol 4
Perthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES